# Y BIGWN

CYF. 30 RHIF 4 MEHEFIN 2018 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*

## DATHLU CLWB Y 'GATEWAY



Torri'r gacen tud 10

## HELO MR URDD



mwy o luniau tud 2




Eiri efo'r llyfryn. - tud 21



Wilfrid Jones yn ddeunaw oed - tud 27



Clapham Junction, Ebrill 1949, Pwy sy'n priodi? tud 25

**Mae angen i BOB DIM fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn erbyn Dydd Gwener, Mehefin 22 - Ar Werth Gorffennaf 7, 2018**



Clwyd, Peter a David yn diddanu - tud 10

## Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd 2020 – Apél Dinbych

Roedd nos Wener 18 Mai yn noson braf, a daeth criw da at ei gilydd i noson lansio Apêl Dinbych ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2020. Roedd Clwb Rygbi Dinbych yn lleoliad delfrydol ar gyfer y noson, a bu'r plant yn mwynhau gweithgareddau amrywiol, a'r oedolion yn mwynhau amser i gymdeithasu yn yr haul. Paratowyd cyri a chŵn poeth, a threfnwyd raffl gyda nifer o wobrau ar gael. Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i gefnogi, gwnaethpwyd elw o £500 ac mae'n argoeli'n dda ar gyfer gweddill yr apêl! Cynhelir cyfarfod nesaf y pwyllgor nos Fawrth 5 Mehefin yn Swyddfa'r Urdd Dinbych, ac mae croeso i bawb! I gael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau'r pwyllgor, dilynwch dudalen Pwyllgor Apêl Dinbych Eisteddfod 2020 ar Facebook, a @pad2020 ar Twitter ac Instagram.



Pawb yn gwrando'n astud ar Eleanor


Y BIGWN

**Cartwnau Huw**

Rhifyn arbennig o'r **Bigwn** yn cynnwys gwaith ein cartwnydd Huw Vaughan Jones dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain

Ar werth yn Siop Clwyd

**Pris- £3 Pris drwy'r post - £4**

Ar gyfer sicrhau copi drwy'r post cysylltwch â:-

John Geraint Jones - jones_john@btinternet.com




Mair, Rachel, Sian, Elen a Catrin



Ein ffotograffydd yn brysur



Gwenno, Sian, Tara, Catherine a Hawys

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
- **Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones
01745 812214
russelljones9@talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
Berwyn Roberts (812672)
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Catrin Warren (814675)
Ceredig Gwynn (815701)
Ruth Williams (812822)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
Bryn Llys, 10 Llain y Capel
Dinbych LL16 3TU
01745 814497
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Ffion Whitham (01824 704642)
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Gair gan y Golygydd

Cyfeirir at Y Bigwn gan amlaf fel "Papur Bro", ond rwyf wedi dadlau ar sawl achlysur fod y term ddim yn briodol i'r papur hwn. Tref Dinbych yn unig yw dalgylch y papur, felly Papur Tref ydy'r Bigwn, yn cynnwys adroddiadau a straeon am neu o'r dref ei hun. Rydym wedi ein hamgylchynu gan bapurau bro rhagorol, sef Y Gadlas (Papur y Fro rhwng Conwy a Chlwyd), Y Bedol (Papur Bro Rhuthun a'r Cylch) a'r Glannau (Glannau Clwyd a Gwaelod y Dyffryn).

Mae'r rhain i gyd yn derbyn cyfraniadau cyson gan wahanol gymunedau neu bentrefi yn eu bro. Wrth reswm, dydy hyn ddim yn digwydd efo'r Bigwn, sydd yn ein gwneud yn wahanol – dim gwell, na ddim gwaeth – na'r papurau bro "go iawn". Mae rhai wedi awgrymu y dylem gael adroddiadau misol o wahanol ardaloedd o'r dref, megis y stadau tai, ac er mor ddiddorol ac adeiladol ydy'r awgrym hwn, wn i ddim pa mor ymerfrol ydy o mewn gwirionedd.

Oherwydd hyn, does dim patrwm cyson i'r Bigwn o fis i fis, er i ni dderbyn cyfraniadau rheolaidd gan wahanol gapeli, cymdeithasau, ysgolion, clybiau chwaraeon ac ati. Ac wrth gwrs mae nifer o unigolion yn cyfrannu, rhai i bob rhifyn ac eraill yn achlysurol, a mawr yw diolch y golygyddion am hyn i gyd.

Maen nhw'n dweud fod gan bob teulu ei hanes, rhai yn fwy lliwgar na'i gilydd, ac rwy'n hynod ddiolchgar i dri unigolyn o'r dref am gytuno i rannu hanesion teuluol diddorol tu hwnt efo'n darllenwyr. Rwy'n eithaf sicr fod pob un ohonoch yn eu 'nabod yn dda, sef Eiri, Rhagfyr a Tegid, ac, fel mae'n digwydd, mae'r tri hanesyn yn cadarnhau mai'r bobl gyffredin sydd bob amser yn dioddef fwyaf yn ystod rhyfel – ac nid yn unig ar faes y gâd.

Felly, os oes gennych chi hanes teuluol yr hoffech ei rannu efo'n darllenwyr, beth am gysylltu efo un o olygyddion Y Bigwn? Byddant wrth eu bodd yn eu derbyn.

********************************

Oherwydd amgylchiadau annisgwyl, ni fu'n bosibl i Gwenan ddarparu Tudalen y Plant i'r rhifyn hwn. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i Gwenan am wneud y gwaith, ac edrychwn ymlaen at gael ei chyfraniad mis nesaf.

********************************

**Cofiwch am lyfr cartwnau Huw, cartwnydd Y Bigwn. Mae copïau dal ar gael yn Siop Clwyd am £3.00. Mae'r holl elw'n mynd i Apêl Dinbych Eisteddfod yr Urdd 2020.**

*John Davies*

**Dyddiadur**

Cymdeithas Gymraeg Dinbych – Bore Coffi yn Llys Y Coed, Ffordd Ystrad trwy garedigrwydd Rhianwen Williams ac Edith Jones **Bore Sadwrn Mehefin 16eg, 2018** 10 - 11.30 TOCYN £1 Croeso Cynnes i bawb.

**Mehefin 22ain**, 7.00 y.h.,"Effeithiolrwydd a Diogelwch Meddyginiaethau", darlith gan yr Athro Dyfrig Hughes yn Amgueddfa Gwefr heb Wifrau.

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2020 Pwyllgor Apêl Tref Dinbych**
Nos Lun, Mehefin 25ain. am 7yh Cyri a Cwis yn Nhy Bwyta Radhuni
**Tocyn: £12**

**Mehefin 29** Noson Goffi a Hwyl yn Ysgol Llanrhaeadr - MENCAP Dinbych a Rhuthun

Cymdeithas Y Bigwn
**Nos Wener, Medi 7fed** am 6.00yh - Noson Rhostio Mochyn yng Nghlwb Rygbi Dinbych

**BAG Y BIGWN**

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Gosod Blodau Dinbych | £25.00 |
| Helena ac Elfed Williams | £15.00 |
| Janice Jones, Lôn Tywysog | £10.00 |
| Eirwin a Mary Jones Gwynedd | £10.00 |
| Hetty Humphreys Bro Dawel | £ 5.00 |
| Erfyl a Carys Williams | £ 5.00 |
| Di-enw | £ 5.00 |

**Guthrie Jones a Jones** Cyfreithwyr
Osian Roberts LL.B , Nansi Thirsk LL.B,
Dylan Edwards B.A.,LL.B
29 Ffordd Rhuthun, Dinbych LL16 3EH
Ffôn: 01745 814 817 dinbych@guthriejj.co.uk
GWASANAETH CYFREITHIOL CYFLAWN YN Y GYMRAEG
yn y Swyddfa neu Gartref

# Y Capeli

## CAPEL BRWCWS

Agorwyd yr Ysgol Sul, Ebrill 22ain gan Rhian, Cari a George Cattell. Yn y prynhawn croesawyd y Parch Brian Wright aton i'r Brwcws. Yr organydd oedd Bryan Roberts.
Bore Sul, Ebrill 29ain arweinwyd ni ar ddechrau'r Ysgol Sul gan Gwilym Williams. Y Parch. Richard Glyn Jones oedd y cennad yn oedfa'r prynhawn. Carolyn Thomas oedd yr organyddes.
Ar y Sul cyntaf o fis Mai Catrin Jones fu yn gyfrifol am y rhannau dechreuol yn yr Ysgol Sul. Oedfa Gymun dan ofal ein gweinidog y Parch. Andras Iago a gawsom y prynhawn. Eleanor Roberts oedd wrth yr organ.
Cynhaliwyd Oedfa'r Fro, dan arweiniad ein gweinidog y Parch. Andras Iago, yng Nghapel y Dyffryn fore Sul Mai 13eg.
Nos Fercher Mai 16eg daeth tymor Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws i ben gydag ymweliad á Chanolfan Noddfa, Penmaenmawr. Cawsom groeso arbennig gan y Chwiorydd gyda pryd o fwyd cyn cael ein tywys o amgylch y gerddi. Diolch i Lis Edwards am y trefnu, Dilys Davies am dalu'r diolchiadau a'n cadw mewn trefn ac i Carys am ofalu am yr arian.
Llongyfarchiadau a phob dymuiad da i Iona Teleri Jones, Encil ar achlysur ei phriodas ag Iwan Roberts yng Nghapel y Fron ddydd Sadwrn, Mai 19eg.

## CAPEL Y FRON

Yr oedd oedfa bore Sul Ebrill 22ain dan ofal Y Parch Brian Wright, Cyffordd Llandudno a braf oedd cael croesawu Mrs Eirlys Wright hefyd. Yr organyddes oedd Mrs Eiri Jones ac ar nos Sul Ebrill 29ain gwasanaeth y Parch Glyn Jones, Llanrwst gawsom, a'r organyddes oedd Mrs Megan Williams.
Bore Sul Mai 6ed yr oedd yr oedfa Gymun dal ofal ein Gweinidog a Mrs Iona Edwards oedd yr organyddes y Sul yma.
Yr ydym fel Eglwys yn cydymdeimlo hefo Mr a Mrs Erfyl Williams, Gogor Deg. Mae Erfyl wedi colli modryb ac hefyd gyda Mr a Mrs Dafydd Lloyd Jones, Glyn Garth. Mae Dafydd wedi colli perthynas agos yn ddiweddar.

## Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws

Yr ydym wedi bod yn lwcus eleni ac wedi cael dau o dripiau ardderchog. Nos Fercher Ebrill 18fed aeth 20 ohonom i ymweld a Llainwen Ucha,, Pentrecelyn, cartref Carys a Bryn Parry. Y mae y ddau wedi ailgyfeirio ac yn cadw miloedd o ieir ac yn arbenigo yn yr ieir sydd yn dodwy wyau lliwgar. Wedi i ni ymgasglu ar fuarth Llainwen fe gawsom groeso ac ychydig o hanes y fenter cyn mynd ymlaen i weld yn holl ieir ac hefyd y gwaith gyda'r wyau cyn iddynt gael eu casglu i fynd i'w gwerthu yn y siopau mor bell á Llundain. Noson ddiddorol ac addysgiadol iawn. Yna i ddiweddu'r noson fe gawsom luniaeth ysgafn, yn annisgwyl, wedi ei baratoi gan mam Bryn, sydd newydd ddathlu ei phenblwydd yn 90 oed.
Wedyn Nos Fercher Mai 16eg aethom ar ymweliad á Noddfa Penmaenmawr. Unwaith eto fe gawsom groeso gan y Lleianod sydd yn rhedeg y lloches yma yn nhawelwch rhwng y mynyddoedd a'r mór ym Mhenmaenmawr ar noson braf. Wedi i ni gael swper blasus wedi ei baratoi ganddynt, fe gawsom hanes y lle a mynd oddiamgylch y gerddi a gweld y Capel sydd wedi cael ei addasu o'r hen stabl oedd yno. Y mae yno awyrgylch tawel a hyfryd iawn. Pawb wedi mwynhau cyn troi am adre. Diolch yn fawr iawn i Liz Edwards, ein hysgrifennyddes, am drefnu y ddwy noson mor drwyadl ac i'r chwiorydd oedd mor barod yn gyrru eu ceir ar y ddwy noson a gofalu ein bod adre yn sáff.





Ymweld â Noddfa, Penmaenmawr

## Y CAPEL MAWR A SEION

Ar Ebrill 18fed collasom ein haelod hynaf gyda marwolaeth Mr Hywel Vaughan, 3 Maes yr Eglwys, yn 96 mlwydd oed. Brodor o Gynwyd ydoedd a threuliodd ei fywyd yn gweithio ar y tir ac ym myd diwydiant. Cynhaliwyd ei angladd yn y capel ar y cyntaf o Fai gyda'r Parch. Ddr. Andras Iago yn gweinyddu a Mrs Doris Rogers wrth yr organ. Bu'r traddodiant ym mynwent Capel Y Waen, Aberchwiler.
Cydymdeimlwyd yn yr oedfa hwyrol y Sul canlynol â'i briod Kathleen, ei fab Robert a'i ferch Kathleen a gweddill y teulu.
Cydymdeimlwyd hefyd yn ystod y mis â Mrs Catrin Warren a'r teulu a gollodd ei chwaer a Mrs Delyth Williams a'r teulu a gollodd ei thad.
O ran oedfaon, cafwyd cwmni'r Parch. Brian Wright, Cyffordd Llandudno, ar nos Sul, Ebrill 22ain. Croesawyd ef gan Mrs Cheryl Williams, llywydd y mis, a'r cyfeilydd oedd Mrs Dorothy Rogers.
Y Parch. Richard Glyn Jones, Llanrwst, oedd y cennad ar fore'r Sul olaf o Ebrill. Mrs Dorothy Rogers oedd wrth yr organ.
Ar y Sul cyntaf o Fai y Gweinidog oedd y cennad yn yr oedfa hwyrol. Croesawyd ef gan Mrs Angharad Rhys, llywydd y mis.

# Y Cymdeithasau

## Cymdeithas Caledfryn

Aeth bws bach â chriw o aelodau i Fron-goch ger Y Bala lle agorwyd gwersyll carchar ar Fehefin 9fed, 1916 i dderbyn carcharorion Gwyddelig a gymerodd ran yng Ngwrthryfel y Pasg yn Nulyn. Cyn hyn carcharorion Almaenig oedd yno.
Carcharwyd dros 1,800 o Wyddelod yno, gwirfoddolwyr yr Irish Republican Brotherhood (yr I.R.A yn ddiweddarach) yn cynnwys rhai o'r prif arweinwyr fel Michael Collins. Bu'r carchar, ar safle hen adeilad distyllfa chwisgi, yn gyfle i'r I.R.A. ddatblygu eu syniadau chwyldroadol ac awgrymir fod Michael Collins a'i gymrodyr wedi rhoi gwersi mewn ymladd a milwriaeth i'w gyd-ddisgyblion. Daethpwyd i adnabod Fron-goch fel "Prifysgol Sinn Fein" neu "Prifysgol y Chwyldro." Caewyd y gwersyll yn hwyrach ym 1916 gan Lywodraeth Prydain a dychwelwyd y carcharorion i Iwerddon.
Daeth llawer o gyn-garcharorion Fron-goch yn arweinwyr y rhyfel dros annibyniaeth Iwerddon a orfododd Llywodraeth Prydain i ildio rheolaeth o 26 o 32 o siroedd Iwerddon a sefydlu Gweriniaeth Iwerddon yn wlad annibynnol.



Carchororion Gwyddelig



O flaen y Gofeb

Heddiw nid oes dim o'r hen wersyll ar ôl. Mae Ysgol Bro Tryweryn yn sefyll ar safle'r hen wersyll.
Yn 2002 fe godwyd cofeb mewn tair iaith – Cymraeg, Gwyddeleg a Saesneg mewn culfan ar ochr y ffordd fawr, yr A41212, ym mhentref Fron-goch, i ddynodi mai dros y gwrych ar y tir hwnnw oedd un rhan o'r carchar.
Dyma oedd man cychwyn ein taith gyda'n tywysydd, Dewi Davies, cyn bennaeth Ysgol y Berwyn, Y Bala.
Yna cerdded i gyfeiriad y pentref ac aros ysbaid o flaen Heulfryn, tŷ Penswyddog y Gwersyll yn 1916 sef y Cyrnol F.A. Heygate-Lambert, cyn inni ymweld ag arddangosfa breifat Alwyn Jones mewn shed fawr yn y pentref yn cynnwys lluniau o Wrthryfel y Pasg a baneri, copïau o ddogfennau o hanes y carcharorion a lluniau o'r gwaith chwisgi. Yno cawsom gwmni Alwyn Jones a fu'n trefnu'r arddangosfa i ddathlu'r canmlwyddiant yn 2016 ac yno hefyd y cawsom gyflwyniad am y gwersyll ar y sgrin fawr gan Dewi Davies, ein tywysydd, gan gynnwys hanes llawer o'r carcharorion Gwyddelig.
I ddiweddu'r daith, cawsom bryd o fwyd ym Mhlas Yn Dre yn Y Bala cyn dychwelyd adra gyda Dei Rich wrth y llyw, ar ôl noson gofiadwy ac addysgiadol.
O.N. Yn ddiweddarach, daeth Heulfryn yn dŷ gweinidog ac un o'r gweinidogion a fu'n byw yno oedd Y Parch Peter Henry Williams, taid Delyth Jones a thad Ednyfed Williams a gafodd ei eni yn Heulfryn. Nain Delyth oedd Edith Llynor Williams, yn wreiddiol o Landderfel.
Mae'n ddiddorol mai Llifon, gŵr Delyth, a dalodd y diolchiadau ar ddiwedd ein hymweliad â Fron-goch.

## Urdd Cyfeillion Ysbyty Glan Clwyd

Cafwyd Cyfarfod Blynyddol yr Urdd ar 25ain o Ebrill.2018, yn yr Ysbyty. Agorwyd gan y Cadeirydd Mrs. Iona Edwards ac wedyn gan Mr. John Bellis, Llywydd yr Urdd. Y gŵr gwadd oedd Mr. Gwyn Jones, un o sefydlwyr yr Urdd. Siaradodd sut ddechreodd grwp bach ddod at ei gilydd cyn i'r Ysbyty agor. Cafodd Mr.Jones ei wobrwyo fel Is Lywydd am oes fel gwerthfawrogiad am ei waith caled dros y blynyddoedd.
Y Swyddogion newydd ydi- Cadeirydd Mr. Terry Durkin a'r Is Gadeirydd Mr. Bryan Roberts.
Mae yr Urdd yn bwriadu trosglwyddo £200.000 i'r Ysbyty flwyddyn yma.

*Mary Jones*




TE YN Y GRUG

**Tŷ Te a Delicatessen**

**Coronation Buildings,**
**Lôn Gefn,**
**Dinbych, Ll16 3TE**
**deli@teynygrug.co.uk**

**01745 816576**

# MWY O GLOD I CAB SIR DDINBYCH

Cyngor ar Bopeth yw'r unig asiantaeth cynghori sydd wedi ymrwymo i fesur ansawdd y cyngor sy'n cael ei gynnig, yn ogystal ag archwiliad sefydliadol. Mae'r broses yn wrthrychol, allanol ac yn annibynnol.

Yn ddiweddar mae Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych wedi llwyddo i gyrraedd lefel uchaf un yr archwiliad, sydd yn ganlyniad rhagorol.

Yn ogystal, fe dderbyniwyd Tystysgrif Ansawdd Safon Cyngor (AQS) am y gwasanaeth cynghori cyffredinol a'r cyngor arbenigol yn ymwneud â:

- Dyled
- Defnyddwyr
- Budd-daliadau Lles
- Gwaith
- Tai

Yn ôl Alastair Morgan, Cadeirydd Ymddiriedolwyr CAB Sir Ddinbych, "Mae ein tîm o Ymddiriedolwyr, Gwirfoddolwyr a Staff Cyflogedig yn gweithio'n galed i sicrhau fod trigolion Sir Ddinbych yn derbyn y gwasanaeth gorau posibl gennym, a byddwn yn diwallu eu anghenion heddiw ac yn y dyfodol."

*John Davies*
*(ar ran CAB Sir Ddinbych)*

.




Y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, yn cyflwyno tystysgrifau i Alastair Morgan a Lesley Powell, Prif Weithdredwr CAB Sir Ddinbych

**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

DBP
Home Improvements N.Wales

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 815555**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**




**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

# Merched y Wawr Rhanbarth Glyn Maelor



1af Dewis Dau Ddwrn - Mair Spencer, Nerys Davies, Elizabeth Floyd

**Cyfraniad at elusen** : Penderfynodd y Pwyllgor Rhanbarth a gynhaliwyd fis Ebrill fod y £205 o gasgliad a wnaethpwyd y Noson Llith a Charol Rhanbarthol yn mynd i Dŷ Croeso, Ysbyty Glan Clwyd.

**Plastig** : Cafwyd trafodaeth yn y Pwyllgor Rhanbarth ar y gor-ddefnydd o blastig, a phenderfynwyd y byddwn fel rhanbarth yn clustnodi'r flwyddyn nesaf fel blwyddyn lleihau ein defnydd o blastig. Y nod fydd codi ymwybyddiaeth cymunedau am hyn, a gweithredu fel canghennau ac unigolion i leihau'r defnydd.

**Noson Chwaraeon Rhanbarth** : Cynhaliwyd ein Noson Chwaraeon Rhanbarth flynyddol yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun ar Ebrill 11 a daeth timau o 6 changen ynghyd i gystadlu'n frwd. Enillodd cangen Dinbych y gystadleuaeth dewis dau ddwrn a hefyd y sgrabl, a dod yn ail yn y gyrfa chwist a'r tenis bwrdd. Buddugwyr y chwist oedd cangen Wrecsam. Rhuthun oedd yn fuddugol gyda'r dartiau, y dominos a'r tenis bwrdd. Daeth cangen Dyffryn Ceiriog yn ail yn y sgrabl, cangen Llanrhaeadr yn ail gyda'r dominos, a Llanfair D. C. yn ail gyda'r dartiau. Bydd y buddugwyr a'r ail safle yn mynd yn eu blaen yn awr i gynrychioli'r rhanbarth yn y Chwaraeon Cenedlaethol ym Machynlleth ar Fai 19. Diolch i Nia Rowlands am drefnu'r noson ac i gangen




1af Sgrabl - Angharad Rhys a Myfanwy Williams

Yr Wyddgrug am ofalu am y baned.

**Bowlio Deg Rhanbarthol** : Bydd timau o'r canghennau yn cystadlu yng Nglan-llyn ar Fai 3.

**Gŵyl Haf** : Cynhelir ein Gŵyl Haf flynyddol yng Nghanolfan Cae Cymro, Clawddnewydd nos Wener, Mehefin 8.

**Noson Grefft Ranbarthol** : Bydd y noson hon yn Neuadd Pwllglas, nos Fercher, Mehefin 13. Bydd siaradwraig wadd ar y noson, arddangosfa o waith crefft yr aelodau a bydd gwaith cystadleuaeth Radi Thomas Sioe Llanelwedd yn cael ei feirniadu. Croeso i aelodau ac unrhywun arall sydd am ymuno â ni.

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD 2020

Gyda'r rhifyn hwn o'r **Bigwn** byddwch yn derbyn amlen ar gyfer gwneud cyfraniad os y dymunwch at Apêl y Dref tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dinbych 2020.

Rhoddwyd targed heriol o £60,000 i'r dref, yr arian i'w godi dros y ddwy flynedd nesaf.

Trefnwyd nifer o weithgareddau codi arian dros y cyfnod hwn. Cewch wybod mwy am y rhain yn fisol.

Gall eich cyfraniad chi drwy gyfrwng yr amlen hon fod yn hwb i'r pwyllgor o bobl ifainc sydd yn ysgwyddo'r gwaith o gyrraedd y targed ar ein rhan ni oll.

**Os gwelwch yn dda, ewch â'r amlen gyda'ch cyfraniad i Swyddfa'r Urdd, Tŷ Panton, Neuadd Panton – drws nesaf i'r "launderette". Fyddwn ni ddim yn casglu o ddrws i ddrws.**

Rydym wedi nodi ar yr amlen mai cyfraniad ar ran tref Dinbych ydy' hwn, Fydd o ddim yn mynd o dan unrhyw bennawd arall.

## Dathlu 200fed rhifyn Cylchgrawn Y WAWR yng Ngwesty'r Conrah, Aberystwyth, Mai 1af.



O'r chwith: Nesta Rees, Clawddnewydd; Eirwen Jones, Rhuthun; Haf Roberts, Llansannan; Anwen Williams, Peniel, Dinbych; Sheila Dafis, Llansannan; Nerys Davies, Dinbych; Ffion Davies, Llanelwy.

**OS OES ANGEN COPI PRINT BRAS O'R BIGWN ARNOCH CYSYLLTWCH EFO BEDWYR AR 814497**

# MERCHED Y WAWR, DINBYCH a'r CYLCH

Bu cyfarfod mis Ebrill o Ferched y Wawr ar nos Fercher 4ydd o'r mis. Roedd nifer o'r aelodau wedi gyrru ymddiheuriadau.
Croesawyd pawb oedd yn bresennol gan Mair Roberts, a llongyfarchwyd Gwyneth a Tec Roberts ar ddathlu eu priodas Arian. Anfonwyd ein cofion at Elizabeth Lloyd a oedd wedi treulio cyfnod yn yr Inffyrmari, da deallt ei bod wedi gwella erbyn hyn. Atgoffwyd yr aelodau am y noson chwaraeon ar Ebrill 11eg, ac hefyd am yr Wŷl Haf ym Machynlleth ar Mai 19eg. Gwestai y noson oedd Teleri Roberts o Nantglyn a ddaeth atom i siarad am adweitheg (*reflexology*). Clywsom ei hanes yn cychwyn fel nyrs pan yn 18 oed a cael swydd yn Lerpwl fel bydwraig dan hyfforddiant. Bu'n gweithio wedyn fel Ymwelydd Iechyd yn ardal Dinbych. Newidiodd ei swydd wedyn i fod yn nyrs ysgol.
Tua saith mlynedd yn ôl, aeth ei thad yn sal, ac wrth feddwl y dylai nyrs fod yn gallu helpu ei thad i wella, arbenigo hefo plant oedd Teleri wedi ei wneud, felly meddyliodd be arall fuasa hi yn gallu ei gynnig iddo fel *'complimentary medicine'* a meddwl am adweitheg. Bu'n dilyn cwrs blwyddyn mewn coleg ar y Wirral, ac mae wedi derbyn Tystysgrif mewn Adweitheg. Dwedodd na ddylai adweitheg fod yn boenus, ond efallai y buasa'n gallu creu teimladau 'gwahanol' mewn rhannau o'r corff. Cafodd un aelod y pleser o gael ei thrin gan Teleri. Gweler Carys Williams yn ymlacio'n llwyr!

Ennillwyd y raffl gan Mary Mars Lloyd.
Ar nos Fercher, Ebrill 11eg, aeth nifer o'r aelodau i'r noson chwaraeon yn Ysgol Brynhyfryd.
Roedd timau dewis dau ddwrn, sgrabl, chwist a tenis bwrdd yn cymryd rhan. Bu llwyddiant i'r timau i gyd, ac ymlaen a nhw i Machynlleth i gystadlu yn Genedlaethol rwan! Cafwyd swper blasus yn Rhuthun yn ôl yr arfer!
Nos Fercher, Mai 2il, croesawyd Enys Davies atom dan y teitl 'Swyn y Blodau' Soniodd Enys am ei hoffter o flodau gwyllt a dwedodd fod ei nain yn hoff iawn o ddefnyddio wermod llwyd!. Roedd wedi dod a llond basged o flodau gwyllt ac mae defnydd gwahanol i pob blodyn neu ddeilen. Mae llawer o'r dail neu gwreiddyn yn cael ei defnyddio ar gyfer lliwio (*natural dye*). Rhinweddau gwahanol gan pob blodyn neu ddeilen gan gynnwys rhithweledíad (*hallucination*) – meddwl fod chi'n hedfan neu gweld tylwyth teg yng ngwaelod eich gardd! Gall dwr *chickweed* helpu gyda'r deiat a gellir gwneud te allan o ysgellog (*chives*). Mae clofs yn gallu cael gwared o bryfaid cop o amgylch y ty. Diolchwyd i Enys gan Olwen Rowlands. Ennillwyd y raffl gan Anwen Williams.

Roedd hi hefyd yn noson ein cyfarfod blynyddol, ac fe etholwyd y canlynol fel is-swyddogion am y flwyddyn nesaf:
Is-lywydd: Angharad Rhys. Is-ysgrifennydd: Cheryl Williams. Is-drysorydd: Mari Roberts
Diolchodd Mair Roberts iddynt am gymeryd y swyddi.
Ar ddydd Sadwrn braf, Mai 19eg, aeth saith ohonom i gystadlu yn y Chwaraeon Cenedlaethol ym Machynlleth. Timau Dewis Dau Ddwrn, tenis bwrdd a chwist oedd yn cystadlu. Er na lwyddodd yr un o'r timai i'w gwneud hi i'r ffeinals – roedd pob un ohonom wedi trio ein gorau glas – a'r cymeryd rhan sydd yn bwysig. Ond uchafbwynt ein taith i Machynlleth oedd ar y ffordd adra cael aros am swper a chymdeithasu dros bryd blasus mewn gwesty nid an-enwog! Diolch i Nia Rowlands am drefnu hyn.
Ar nos Fercher, 6ed Mehefin, byddwn yn mynd ar ein taith blynyddol gydag ymweliad a Phont y Twr a swper i ddilyn yn Y Ceffyl Gwyn yn Llandyrnog. Pawb i gyfarfod yn Pont y Twr oddeutu 6.00yh

*Annwen Roberts*



**"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"**


PBj (Y)



**GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf**
*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
**Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332**
**e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk**

## Pwy ydi hwn?



Geraint Roberts, Gwynfa, ydi'r gŵr ifanc sy'n chwibanu neu'n chwislo'n y llun. Magi Jones, 9 Dalar Wen, ebostiodd gyda'r atebion cywir a hi sy'n ennill y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau!

Cawsom ymateb hefyd gan Mair Lloyd Davies o Bwllheli a gredai fod Geraint yn canu'r organ geg.

Dyma weddill ebost Mair, "Geraint Cefn Coch oedd o i mi gan i ni gael ein magu yn yr un ardal a'r ddau ohonom yn aelodau o Glwb Ffermwyr Ieuanc Llanwnda. Roedd un o'i chwiorydd - Gwenllian - yn yr ysgol yng Nghaernarfon efo fi ac fe briododd un o'i frodyr -Tecwyn - ferch y Llythyrdy yn Rhostryfan lle roeddwn yn byw. Yn ogystal â medru canu'r organ geg, mae Geraint hefyd yn unawdydd da fel sy'n wybyddus i ddarllenwyr Y Bigwn, dwi'n siwr."

Ond beth am y ddau gwestiwn arall yn y gystadleuaeth oedd yn anoddach i'w hateb sef "Ble mae Geraint yn y llun?" a "Be ddigwyddodd nesaf?"

Fe gaiff Geraint ei hun ddweud mwy:-

Mae dau gwestiwn wedi rhoi anhawster yn ôl bob golwg. Felly dyma'r hanes yn fratiog. Gyda llaw, mae hwn wedi digwydd dros drigain mlynedd yn ol.

Roedd y ddawn o chwibanu gennyf pan oeddwn yn 16 oed, gyda diddordeb mewn gwrando ar gân yr adar. Roeddwn yn byw yng Nghefn Coch, Llanwnda ger Caernarfon ar fferm fechan gyda choed mawr yn tyfu ochr allan i'r buarth a'r ydlan. Roedd coed fel hyn yn denu'r adar, yn enwedig yn y gwanwyn.

Daeth diddordeb o ddynwared adar i'm rhan pan oeddwn oddeutu 19 oed. Roeddwn adref ar y fferm gyda'm tad a mam ac amser cinio, bob dydd, byddwn yn gwrando ar y radio ac ar y rhaglen, "Workers' Playtime" ac un o'r artistiaid rheolaidd ar y rhaglen oedd yr arbenigwr, Ronnie Ronalde.

Roedd o'n wych. Felly trwy wrando arno, dechreuais innau ddynwared. Gan ymarfer llawer a chymryd rhan mewn ambell i Noson Lawen ac yng Nghlwb Ffermwyr Ieuanc Llanwnda, deuthum yn dipyn o hen law arni.

Gyda llaw, yng nghanol y pumdegau, cefais y fraint o gymryd rhan mewn Noson Lawen Radio o Neuadd y Dref, Dinbych, gyda'r enwogion Charles Williams, T.C. Simpson a'r Co Bach. Pwy fuasai'n meddwl ar y pryd y buaswn yn ymgartrefu yma yn Ninbych! Bychan o fyd, ynte!

Yn ôl at y cwestiynau a'r trydydd cwestiwn, **" Ble mae o?"**

Yr ateb ydi'r Dyffryn Hapus, sef yr Happy Valley yn Llandudno.

Aeth hen ffrind i mi sef Eurig o Bant Glas a minnau i Landudno un prynhawn braf yn yr haf. Ar ôl cyrraedd yno, i fyny â ni i'r Dyffryn Hapus. Roedd yn ddiwrnod arbennig o braf a'r lle yn llawn o ymwelwyr ac i bawb sydd yn wybyddus â'r lle, mae'r ganolfan fel powlen gyda'r canol yn llawn o seddi ac o amgylch mae tir glas a lle i bobl eistedd os bydd y tywydd yn caniatau.

Ymlaen y diwrnod hwnnw roedd cystadleuaeth – Talent Competition. Dyma Eurig, fy ffrind, yn ceisio fy mherswadio i gymryd rhan. Doedd gennyf ddim copi a heb ymarfer ond ymlaen â mi i gael gair tawel gydag arweinydd y band sefydlog. Wedi egluro wrtho a dweud pa drefniant, dywedodd, "Rydym yn gwybod yr alaw yna yn iawn."

Ac felly, pan ddaeth fy nhro, ymlaen â fi gydag ychydig o hyder. Beth bynnag, mi enillais y rownd honno a'r wobr oedd mynd ymlaen i fangre yn Lloegr i'r rownd derfynol. Ond es i ddim oherwydd roeddwn yn ffarmio gartref gyda fy mam. Felly roedd yn amhosib.

Yn ôl at y cwestiynau eto a'r pedwerydd un,


**"Beth ddigwyddodd nesaf?"**

I bawb sydd yn wybyddus â'r Dyffryn Hapus yn Llandudno, mae coed yn tyfu o amgylch y cylch. Yr alaw roeddwn yn chwibanu ac yn ei dynwared oedd, "If I were a blackbird,"a'r rhyfeddod oedd, pan oeddwn yn dynwared y deryn du, dyma dderyn du yn hedfan o ben coeden i'r cylch dros ben y gynulleidfa ac i goeden fawr tu cefn imi. Roedd pawb wedi synnu! Teimlad braf iawn ac yn brofiad arbennig i mi.

**Geraint Roberts**

## Pwy ydi'r ddau yma?

Dafydd Lloyd Jones a Clwyd Wynne sydd yn y ddau lun. Aeth y ddau gapsiwn ar goll yn rhifyn mis Mai. Swyddogion nyrsio oeddent yn Ysbyty Gogledd Cymru. Diolch iddynt am hanes yr ysbyty yn rhifynnau mis Ebrill a Mai.



Dafydd Lloyd Jones



Clwyd Wynne

J. H. & B. JONES
CIGYDD TEULU
Gwerthu PYSGOD hefyd
* Cig cartref
* Cig o ffermydd lleol
* Cig i'r rhewgell
92 Stryd y Dyffryn, Dinbych
01745 812132



# Dathlu y 'GATEWAY'



John Vaughan Williams, BEM, yr Ysgrifennydd



Eleri Davies yn cyflwyno blodau i Eleanor Jones

















# CLWB Y "GATEWAY" DINBYCH
## Dathlu Pen-Blwydd Yn Ddeugain Oed

Roedd yr haul yn disgleirio ar gyfer dathliad 40fed pen-blwydd Clwb y "Gateway" Dinbych a gynhaliwyd ar ddydd Sadwrn Mai 5ed yng Nghanolfan Gymunedol Eirianfa, Dinbych.

Roedd dros 130 o bobl y bresennol, gan gynnwys Maer a Maeres Dinbych, cyn-arweinwyr y Clwb, a chynrychiolwyr a gwirfoddolwyr o sefydliadau, eglwysi a chapeli lleol, yn ogystal â rhieni, gofalwyr ac, wrth gwrs, ein haelodau.

Croesawyd a gwahoddwyd pawb i fanteisio ar y cyfle i edrych ar nifer o ffotograffau a fideos yn cofnodi gweithgareddau'r Clwb dros y 40 mlynedd ac yn ein hatgoffa o'r nifer fawr o bobl, yn aelodau a chynorthwywyr, oedd wedi helpu'r Clwb fod yn llwyddiant.

Wedyn daeth yr adloniant, wedi ei ddarparu gan gan Clwyd, David a Peter. Dilynwyd hyn gan de prynhawn a fwynhaodd pawb, wedi ei baratoi gan Gwmni Bwyd Tanzaro.

Diolchodd Eleanor Jones, Cadeirydd y Clwb i bawb am fynychu'r achlysur gan ddweud ei bod hi mor falch fod cymaint o bobl yna. Trefnwyd y diwrnod, nid yn unig i ddathlu cyrraedd ein 40fed pen-blwydd ond i ddiolch yn fawr iawn i'r holl bobl sydd wedi helpu'r Clwb dros y blynyddoedd. Soniodd am sut y dechreuodd y Clwb ym 1977 mewn Noson Goffi yn Ystrad Isa, Dinbych, cartref Dr Gwyn a Mari Thomas. Cafodd y diweddar Mair Jones, Ysgrifennydd Cymdeithas MENCAP Dinbych, sgwrs gyda'r diweddar Syd Badland, sef Llywydd y Clwb Rotari lleol, am y posibilrwydd o sefydlu Clwb Gateway yn Ninbych. Cymerodd 12 mis ond ar y 5ed o Fai 1978 agorodd y Clwb ei ddrysau am y tro cyntaf. Nod y Clwb oedd rhoi seibiant i rieni a gofalwyr a darparu cyfleusterau cymdeithasol a hamdden i'r aelodau. Ar y noson gyntaf mynychodd 41 aelod allan o gyfanswm aelodaeth o ychydig dros 60. 40 mlynedd yn ddiweddarach mae ychydig dros 40 aelod, ar gyfartaledd, yn bresennol bob dydd Gwener, allan o aelodaeth o dros 60. Mae deunaw o'r aelodau gwreiddiol yn dal i fod yn gysylltiedig â'r Clwb, ac mae hynny'n wych. Mae'r Llywydd gwreiddiol, Dr Gwyn Thomas, hefyd yn dal i gadw mewn cysylltiad. Roedd hi'n bleser cael croesawu Purwen, arweinydd gwreiddiol y Clwb, i'r dathliadau, yn ogystal â gwirfoddolwyr eraill yn ymestyn yn ôl dros y blynyddoedd. Dim ond un o'r gwirfoddolwyr gwreiddiol sy'n dal i fod yn rhan o'r Clwb heddiw. Wrth gwrs yr ydym yn sôn am ein Ysgrifennydd, John Vaughan Williams BEM, sydd wedi gweithio'n ddiflino i'r Clwb a threfnu'r dathliadau (cyfarchwyd hyn gan gymeradwyaeth uchel gan bawb).

Aeth ymlaen i ddweud fod y Clwb yn dibynnu ar sefydliadau lleol i helpu cludo aelodau i'r Clwb ac oddi yno. Mae llawer ohonynt yn byw yn y pentrefi cyfagos ac yn ei chael hi'n anodd mynychu heb y gefnogaeth hon. Ni fyddai nosweithiau Gwener yr un fath heb y nifer o sefydliadau, eglwysi, capeli ac unigolion sy'n helpu i wneud y te. Mae llawer o'r unigolion a'r grwpiau hyn wedi bod yn gysylltiedig ers i'r Clwb ddechrau ac maent yn sicr yn cael eu hystyried fel ffrindiau gan ein holl aelodau. Diolch yn fawr i chi i gyd.

Mae'n hawdd gweld fod ein Clwb yn ran annatod o'r gymuned ac mae ein haelodau yn sicr wrth wraidd hynny.

Diolchodd i'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan ofalwyr, rhieni a Chymdeithas MENCAP Dinbych a Rhuthun, a pawb sy'n rhoi cefnogaeth aruthrol i'r Clwb, gan sicrhau eu bod yn gefn i bopeth a wnawn.

Ni fyddai ein Clwb yn ddim byd heb ein haelodau gwych sy'n mwynhau bywyd i'r eithaf. Mae nosweithiau Gwener yn amser gwych i bawb yma. Mae aelodau'n chwarae rhan flaenllaw wrth redeg y Clwb. Cynhelir Pwyllgorau yn bennaf ar nosweithiau Gwener, gan ganiatáu i aelodau gymryd rhan, ac maent yn mynd ati i gyflwyno syniadau a byddwn yn ymdrechu i wneud i'r rhain ddwyn ffrwyth. Yr ydym yn cael cymaint o hwyl, mae'n bleser bod yn rhan o'r Clwb.

Yna diolchodd i'r gwirfoddolwyr presennol am eu cymorth wrth drefnu'r digwyddiad, gan ddiolch i John, ei wraig a'i ferch, am eu gwaith caled wrth roi'r atgofion ffotograffig at ei gilydd. Diolchodd i'r diddanwyr, MENCAP Dinbych a Rhuthun am gefnogi'r digwyddiad, Tanzaro am y bwffe gwych a Chanolfan Gymunedol Eirianfa am ganiatáu i ni barhau i ddefnyddio'r cyfleusterau.

Yna siaradodd Dr Gwyn am ei ymrwymiad a'i gysylltiad â Gateway, a rhoddodd Miss Eleri Davies, un o'n aelodau gwreiddiol, araith fer a chyflwynodd flodau i'r Cadeirydd.

Yn olaf, daeth y prynhawn i ben drwy dorri cacen enfawr a wnaed gan Popty, ble mae nifer o'n haelodau'n gweithio a cynigwyd llwncdestyn i ddyfodol y Clwb.

Derbyniodd pob aelod fwg i'w hatgoffa am yr achlysur arbennig hwn.

*Eleanor Jones*
*Cadeirydd Clwb y "Gateway"*

---

**CYMDEITHAS GYMRAEG DINBYCH**

# BORE COFFI

**YN**

**LLYS Y COED FFORDD YSTRAD**

TRWY GAREDIGRWYDD RHIANWEN WILLIAMS AC EDITH JONES

**BORE SADWRN MEHEFIN 16EG 2018**
**10-11.30 TOCYN £1**
**CROESO CYNNES I BAWB**

---


CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**

- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**

- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnïau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA
01745 812835
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com
**Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned**
Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall

# DINBYCH – DEMENTIA GYFEILLGAR



Gillian Elisa hefo Rebecca Bowcott

Yn ddiweddar, daeth cais i mi ymuno a'r pwyllgor llywio sy'n gweithio tuag at gael statws i'n tref fel un "Dementia Gyfeillgar", h y yn fwy ymwybodol o anghenion pobl sy'n dioddef o'r salwch ofnadwy yma.
Gan mai Dementia Llym oedd un o achosion marwolaeth Mam y flwyddyn diwethaf a minnau wedi byw hefo datblygiad y cyflwr ynddi am o leiaf ddwy flynedd, yr oeddwn yn awyddus i helpu hyd y gallwn. Cyn i mi sylweddoli bron, yr wyf wedi diweddu yn Gadeirydd a mawr obeithiwn y bydd rhagor o newyddion am gael statws swyddogol fel tref Dementia gyfeillgar cyn bo hir.
Mae Rebecca Bowcott o Age Connects eisoes wedi gwneud llwyth o waith fel ysgrifenyddes frwdfrydig a gwethgar y grwp. Gobeithiaf anfon hanes ein hymdrechion i'r Bigwn o fis i fis.

Am y tro, dyma air bach am ymweliad pump ohonom sy'n gysylltiedig ag Age Connects Canol Gogledd Cymru a/neu a'r grwp llywio a Theatr Clwyd i weld y ddrama wych Belonging/Perthyn gan Karin Diamond hefo Llion Williams a Gillian Elisa yn y cast.
Llion yn chwarae hen wr yn datblygu a dioddef o Dementia a'l wraig yn ceisio dygymod a Gillian Elisa yn chware hen wraig yn datblygu a dioddef hefyd. Yr oedd y pump actor yn wych a thrawsnewidiad corfforol Llion ar un pwynt o ifanc i hen heb gymorth camera na cholur yn dangos pam y bu iddo gael ei wobrwyo am ei ran. I mi, fodd bynnag ac am resymau amlwg, portread Gillian Elisa o'r hen wraig oedd yn drawiadol. Cyn-athrawes oedd y cymeriad, a hynny yn canu cloch yn syth i mi, a gallaf dystio i mi fyw sawl golygfa - fel yr un pan oedd ei mab yn aros iddi fod yn barod i fynd allan ac, wedi hir aros, yr hen wraig yn ymddangos, yn dweud ei bod yn barod ond heb hyd yn oed wisgo ei sgert. Daeth golygfa'r prawf gallu a sawl atgof hefyd. Y meddyg yn holi cymeriad Gillian Elisa beth oedd enw y prif weinidog. Hithau ddim yn gallu ateb – er ei bod wedi gwybod yn ei hamser – ac yn ceisio dod ohonni gan ddweud nad oedd yn ei drystio a'l bod felly wedi ei flocio allan o'l meddwl. Cofiaf I Mam gael prawf cyffelyb a chael ei holi beth oedd enw cyntaf y frenhines. Mam yn methu cofio – er ei bod wedi gwybod yn iawn – ac yn dweud ei bod hi a'l chenhedlaeth hefo parch mawr at y teulu brenhinol ac ddim yn cyfeirio atynt yn ol eu henwau cyntaf ac felly nad oedd angen gwybod na chofio yr enw! Prawf o gywirdeb nodedig sgript Karin Diamond – awdures ac aelod o gast y ddrama ac un y dylem glywed llawer mwy amdani yma yng Nghymru. Campwaith o ddrama a'r tro cyntaf erioed i mi fod mewn drama a'r gynulleidfa i gyd ar eu traed wrth gymeradwyo ar y diwedd. Ffordd arbennig o godi ymwybyddiaeth am Dementia.
Dyma luniau – Fi, Gillian Elisa a Danny, un o wirfoddolwyr Age Connects ac yna Gillian Elisa hefo Rebecca Bowcott ein hysgrifenyddes weithgar.
Os am ragor o wybodaeth am waith y pwyllgor, cysylltwch â mi ar dilwyn@boyns.wales
Neu 07500538714.
*Dilwyn Jones*



Fi, Gillian Elisa a Danny

siop siocled
01745 814864 dinbych
RWAN YN DERBYN ARCHEBION:
PARTION PLANT, NOSWEITHIAU MWYTHAU I'R ARDDEGAU/OEDOLION A BUSNESAU
* Partion Mwythau o £99
* Partion Siocled o £125
* Nosweithiau i Oedolion a Busnesau o £150
I sicrhau dyddiad i'ch parti ffoniwch 01745 814864 neu ebostiwch mark@denbighchocolateshop.com
Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com
YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN


Jones & Graham
45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH
CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES
Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim
Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg
01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk

**Atebion Croesair Mai 2018**

**Ar Draws :** 7. Ysgol 8. Croesair 9. Trist 10. Wrecsam 12. Cydseinio 13. Gwawd 15. Dilys 17. Mai 18. Padog 19. Y Fron 20. Ymerodrol 22. Oregano 24. Aelod 25. Oeriasol 26. Tywod

**I Lawr :** 1. Ystrad Fflur 2. Corsle 3. Brawdoliaeth 4. Telesgop 5. Pais 6. Gramadegol 11. Anymwybodol 12. Cydwybodol 14. Awdurdodol 16. Syniadau 21. Offeryn 23. Eira

# CROESAIR MEHEFIN 2018



**AR DRAWS**

1. Offeryn i ddal dau beth ynghyd
4. Canlyniad adio dau rif neu fwy
10. Y gellir ei esbonio
11. Llwyd (cyn AS) neu Evans (ralïwr)
12. Amser sydd i ddod
13. Ychwanegol
15. Tŷ...., dinas
17. Niweidiol i fywyd o'i fwyta
19. Cerbyd i gludo cleifion
20. Un o esgyrn y fraich
23. Gwneud camau mewn dawns
24. Oblegid
27. Merched (ar lafar)
28. Iaith Ewropeaidd
29. Symud fel pendil
30. Dod ym ymwybodol o rywbeth newydd

**I LAWR**

1. Prifddinas
2. Atsain
3. Cyfansoddiad dychanol
5. ee Môn
6. Dinas
7. Yn peri syndod
8. Ymson
9. Golwg yn ôl i ailystyru
14. Gwyddor daeargrynfeydd
16. Yn ymwneud â'r ffurfafen
18. Nid yn ddamweiniol
19. Cymryd hylif i mewn
21. Oedran rhwng 13 a 19
22. Twll neu ogof
25. Merch eich plentyn chi
26. ee coffi, cwrw

Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar




Mae wedi bod yn gyfnod prysur yn Amgueddfa **Gwefr heb Wifrau** yn ddiweddar. Bu Vesi a Barbara M. i Fforwm Twristiaeth Sir Ddinbych yng Ngwesty Tŷ Oriel.



Daeth Philip Wensley o Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru atom i achredu'r Amgueddfa am yr ail waith. "Cynllun cenedlaethol sydd yn gosod safonau rheoli amgueddfeydd, gofalu am gasgliadau a gwasanaeth i'r cyhoedd," yw Cynllun Achredu Gwasanaeth Amgueddfeydd yng Nghymru a braf yw dweud ein bod wedi cyrraedd y safon yn llawn unwaith eto. Mae un o'n radios, y Derbyniwr Atgynhyrchiol Foulkes, yn rhan o Arddangosfa "'100 o Wrthrychau" Fforwm Treftadaeth Gogledd-Ddwyrain Cymru yn Amgueddfa Wrecsam tan 30/06/18. Yn yr arddangosfa hefyd mae pennau saeth o Gastell Dinbych, dan fenthyg o Wasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych, siaced gaeth a bloc Gwasg Gee o Amgueddfa Dinbych a ffonograff o 1910 o Gymdeithas Hanesyddol Caerwys. Bu'r ffonograff arbennig yma yn recordio caneuon gwerin Siroedd Dinbych a Fflint yn y cyfnod, gan gynnwys 'Cadi Ha'.



Cawsom ein Cyfarfod Blynyddol ar 20/04/18 a diolchwyd i bawb am eu gweithgarwch gydol y flwyddyn. Dilynwyd y cyfarfod gan ddwy ffilm am longddrylliadau'r 'Ocean Monarch' a'r 'Lelia', a gyflwynwyd gan Tony Griffiths a Keith Mountain.

Llong oedd yn cario ymfudwyr i America oedd yr 'Ocean Monarch' a lladdwyd 178 ohonynt mewn tân toc ar ôl gadael porthladd Lerpwl ar 24/08/1848. Achubwyd dros 200 o bobl ac aethpwyd â nhw nôl i Lerpwl. Golchwyd y cyrff i'r lan ar hyd arfordir Gogledd Cymru, yn arbennig ym Mhensarn a Phrestatyn. Dr. Evan Pierce o Ddinbych oedd y crwner yn yr achos, ac mae cofadail i'r drychineb yn Eglwys St. Michael yn Abergele.
Adeiladwyd rhodlong ('paddle steamer') y 'Lelia' yn Toxteth yn 1864, fel llong a fyddai'n cymryd rhan yn rhyfel cartref America. Y bwriad oedd ei hwylio hi, yn llawn o lo, dan reolaeth Capten Skinner, mor bell ag Ynysoedd yr Azores, lle byddai'n newid ei baner a'i chapten i Arthur Sinclair, oedd yn gydffederalwr. Ar 05/01/1865 gadawodd y 'Lelia' y Merswy ar ei mordaith gyntaf ond buan y gwaethygodd y tywydd. Codwyd yr angorau gan y môr, a thaflwyd nhw drwy'r dec gan achosi twll. Dim ond 12 o bobl a achubwyd. Mae gweddillion y ddwy long yn dal ar waelod y môr wrth arfordir Gogledd Cymru ac mae arteffactau i'w gweld yn amgueddfa morwrol newydd "Ships Timbers" yn Llandudno.



Ar 27/04/18, bu Ioan Talfryn yn darlithio ar "Mewn Anwybod. Agweddau ar waith T.H. Parry-Williams". Roedd T.H. Parry-Williams yn ddyn amryddawn iawn, yn wyddonydd blaengar, yn ieithydd, yn awdur, yn Athro Adran Gymraeg Prifysgol Aberystwyth a fo oedd y bardd cyntaf i ennill y Goron a'r Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol yr un flwyddyn. Dyfyniad o'r gerdd "I'm Hynafiaid" yw "mewn anwybod" a soniodd Ioan am yr "anwybodadwyedd", ansicrwydd ac amhendantrwydd a welir yn y cerddi. Cyfeirioddd at y profiadau anghyffredin a gafodd y bardd mewn lleoedd arbennig a'r profiadau o lwyr ymgolledd, profiadau cyfrinol, a ddisgrifir. Hoff farddoniaeth Ioan, mae'n amlwg!

Mae ein gwirfoddolwyr yn mynd allan i ddigwyddiadau yn y gymuned yn weddol reolaidd. Yn ddiweddar, bu David at yr Amatyriaid Radio sy'n cyfarfod yn Irby, Cilgwri, i ddarlithio ar 'Technoleg y Gramoffôn a Datblygiad y Record 78RPM'.



Cawsom Noson Gwis lwyddiannus iawn yn ddiweddar o dan law feistrolgar Martyn. Dringodd 40 o bobl y grisiau i'r ystafell heulog a nid yn unig y cystadlu oedd yn boeth! Diolch i bawb a gefnogodd y noson, gan godi dros £150 i'r Amgueddfa.

Mae dwy ddarlith ar ôl yn ein cyfres cyn toriad yr haf:
**Mehefin 15fed**, 7.00 y.h., "Darlledu yng Nghymru", gan Ifor ap Glyn.
**Mehefin 22ain**, 7.00 y.h., yn Gymraeg, "Effeithiolrwydd a Diogelwch Meddyginiaethau", gan yr Athro Dyfrig Hughes. Croeso cynnes i bawb.

A ………. mae Martyn wedi llwyddo i gael y Radio Osram Music Magnet Three o 1929 i weithio!
*Barbara Crawford*

# Clwb Gosod Blodau Dinbych

Croesawodd Doris bawb i'r noson a chyflwyno ein harddangoswraig, Janet Hughes o Wrecsam.
"Blodau er mwyn pleser" oedd ei thema.
Ei gosodiad cyntaf oedd blodau'r gwanwyn mewn basged wedi ei gorchuddio á mwsog a hefyd gwyrddni helygen wedi ei blethu, Tiwlips pinc, Hiasinths a Lisianthums.

Gosodiad i'w roi ar fwrdd yn yr ardd oedd yr ail. Fás wydr ar stand gyda chanhwyllau o'i chwmpas, deiliach gwyrdd, Rhosod melyn a Liliau gwynion – hynod drawiadol. (Gweler y llun isod).
Y trydydd gosodiad oedd "Coctel i'r Briodas Frenhinol" mewn gwydryn coctel tal. Roedd dail yr Aspidistra wedi eu troi a'u plethu'n gylchoedd gyda Charnasiwns pinc, Gerberas a Thiwlips o liw tywyll. Hyfryd iawn.

Bocs pren ar gyfer cynnyrch ddefnyddiwyd i greu'r gosodiad nesaf. Deiliach gwyrddion a phinc a Charnasiwns oren a Rhosod oren.

I gloi'r noson defnyddiodd fasged fawr gyda deiliach o wahanol wyrddni, Altermeria gwyn, Chrysanthemum gwyn, Gipsophila a dau sbrigyn o Degeirian mawr gwyrdd. Byddai wedi bod yn drawiadol iawn ar ffenest eglwys.
Mair dalodd y diolchiadau.



Bydd ein cyfarfod nesaf yn Theatr Twm o'r Nant ar Fehefin 7fed am 7.30 yh. Pris y tocynnau fydd £8.00 a'r arddangoswr fydd Arthur Mc Donald o Bury.


*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*
**R.W.Roberts a'i Fab**
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter

**CEIR CLWYDIAN**
Os ydych yn chwilio am
*brisiau cystadleuol
* dewis heb ei ail
* gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol
yna, galwch i'n gweld ar-
FFORDD RHYL, DINBYCH
neu ffoniwch
01745 816720 / 07900555009

JWilliams
BLAS DA
EICH CIGYDD LLEOL
124 Stryd y Dyffryn
Dinbych Ll16 3BS
01745 812585

# CYMORTH CRISTNOGOL YN APELIO AM GYMORTH!

**"Curwch, ac fe agorir i chwi."**

Unwaith eto eleni mae nifer ohonoch wedi derbyn amlen casglu Cymorth Cristnogol drwy'r drws yn eich hannog i gyfrannu tuag at yr achos da hwn. Ond rwy'n ymwybodol hefyd fod nifer ohonoch heb dderbyn amlen, ac heb dderbyn un ers rhai blynyddoedd efallai. Pam felly?

Tua deng mlynedd ar hugain y ôl cefais fy "ngwahodd" gan y diweddar Mr Herber Evans i ymaelodi â Phwyllgor Lleol Cymorth Cristnogol (fel Is-Ysgrifennydd!) ac rwy'n parhau yn aelod o'r Pwyllgor hwnnw. Yr adeg hynny roedd tîm o wirfoddolwyr o bob capel ac eglwys yn y dref yn mynd o ddrws i ddrws i gasglu ym mhob stryd yn Ninbych yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol.

Yn anffodus, dydy hi ddim bellach yn bosibl mynd i bob stryd, a'r prif reswm am hyn wrth gwrs, fel ym mhob maes arall, yw prinder gwirfoddolwyr. Yn wir, mae rhai eglwysi a chapeli wedi gorfod rhoi'r gorau yn gyfan gwbl i gasglu o ddrws i ddrws.

Mae hyn yn anffodus am fwy nag un rheswm. Wrth edrych ar ffigyrau Reg Mortimer, Trysorydd y Pwyllgor, am y cyfnod 2012-2017, fe gasglwyd ymhell dros £3,000 bob blwyddyn – cyfanswm o £21,743.75! Mae hyn dros hanner y cyfanswm am yr holl gyfnod, sef £39,576.76, sy'n cynnwys casgliadau a gweithgareddau achlysurol (fel y Noson Grempog) yn ystod y flwyddyn. Yn bwysicach byth efallai, mae casglu o ddrws i ddrws – ac mae tua 4,000 o dai yn Ninbych - yn gyfle i fynd â'r Ffydd Gristnogol allan i'r gymuned leol mewn ffordd hollol ymarferol, ac i aelodau o wahanol gapeli ac eglwysi ddod at ei gilydd a chydweithio.

Felly, os am barhau efo'r casgliad hwn yn Ninbych yn y dyfodol, mae'n amlwg fod gwir angen mwy o gymorth. Os hoffech chi gynnig eich gwasanaeth mewn unrhyw ffordd – a does dim rheidrwydd i chi fod yn aelod o unrhyw eglwys neu gapel – yna cysylltwch ag Ysgrifennydd y Pwyllgor, Cheryl Williams, ar **rosemeadec@gmail.com**

Dydy'r gwaith ddim bob amser yn hawdd, ac mae'n gallu bod yn rwystredig iawn, ond does neb yn honni fod y Ffydd Gristnogol yn un hawdd. Ar y llaw arall, byddwch yn sicr o weld ambell i fflach o'r ddynoliaeth ar ei gorau fydd yn codi'ch calon – ac yn aml yn y mannau mwyaf annisgwyl! Fe ddigwyddodd hyn i mi eto eleni, ar fwy nag un stepan drws - "Curwch, ac fe agorir i chwi." (Mathew7:7)



Arwyn Roberts (Arweinydd y Côr), Richard Lake (Organydd), Cyra Michelle Bullecer, Parch Nesta Davies a'r Parch Gareth Roberts

Os oes awydd arnoch i wybod mwy am waith rhagorol yr elusen yn lleol ac yn rhyngwladol, neu am gynnig awgrymiadau ar gynnal gweithgareddau gwahanol, mae croeso i chi alw draw i gyfarfod nesa'r Pwyllgor Lleol am 7.00 nos Lun Mehefin 11eg yn Festri Eglwys St Thomas.

Dydy'r ffigyrau terfynol am y casgliad o ddrws i ddrws eleni heb ddod i law eto, ond fe gasglwyd cyfanswm o £463.77 yn Lidl ar y dydd Gwener ac mewn Bore Goffi yn Eirianfa ar y bore Sadwrn.

Ar y nos Sul fe gynhaliwyd y Noson Sankey yn Eglwys Sant Thomas, ble coesawyd gwestai arbennig, sef Cyra Michelle Bullecer o Ynys y Phillipines. Merch ifanc yw Cyra sydd wedi bod yn gweithio gyda Cymorth Cristnogol ers i Gorwynt Haiyan daro'r wlad yn 2014. Braf oedd cael ei chwmni yma yn Ninbych.

*John Davies*

*******************************






# Popeth Cymraeg

Mae Michael Frimston o ddosbarth Nerys Ann yn mynychu dosbarth cynganeddu efo Arwel Emlyn a Steffan Tudor. Dyma gampwaith y Tri Gwr Doeth:

**Llandanwg**

Mae'r cerrig beddau'n furiau
rhag gwynt a glaw y traethau
a lle mae'r twyni yn creu ffin
mae'r eithin yn eurbibau

## Taith i Gastell Harlech a Salem



Heddiw, mae ein dosbarth Cymraeg ynghyd á myfyrwyr o ddosbarthiadau eraill wedi bod ar daith wych.
Roedden ni wedi bod yn darllen ac yn són am Salem ac roedd ein hathrawes wedi awgrymu mynd i ymweld á'r capel a ysbrydolodd yr arlunydd i baentio llun enwog Salem. Roedd pawb ohonom yn meddwl ei fod yn syniad da ac fel ategol i'r ymweliad penderfynwyd ymweld á Chastell Harlech.
Buon ni'n teithio mewn bws mini ac gadawon Ddinbych ychydig ar ól 9:30
Doedd y tywydd ddim yn rhy dda, roedd yn niwlog, ond erbyn yr amser a gyrhaeddon ni i Harlech roedd hi'n heulog ac yn gynnes. Cawson ni ddiod yng nghaffi'r castell ac aethon i mewn i'r castell.
Roedd y castell yn drawiadol iawn ac roedd y golygfeydd o ben y prif dwr yn wych. Roedden ni'n ffodus hefyd o ddod o hyd i grwp o dri cerddor a chanu sy'n perfformio yno. Roedd gynnyn nhw hen offerynnau. Chwaraeon a chanon nhw ganeuon o'r oesoedd canol. Roedden ni'n eistedd ar weddillion y waliau ac yn mwynhau eu perfformiad.
Ar ól y castell, chwilion ni am le i gael cinio a darganfyddon gaffi / bwyty da iawn. Roedden ni'n eistedd yn y teras a chawson ni ginio yn mwynhau golygfeydd y castell a'r bae.
Wedyn, aethon ni yn ol i'r bws mini a gyrru i Salem. Roedd y capel ynghlwm wrth fwthyn, ond nid oedd yn edrych fel capel o'r tu allan. Aethon ni i mewn ac roedden ni'n synnu ei gweld mor fawr, yn ddiweddarach dywedwyd wrthyn fod y capel gwreiddiol wedi'i ehangu.
Roedden ni'n gyffrous iawn i fod mewn capel mor enwog. Edrychon ni efo diddordeb ar y cloc ar y wal a'r eitemau eraill a ddangosir.
Roedd het gorun uchel a siolau i bobl wisgo i fyny. Rhai o'r merched yn y grwp, yn gwisgo'r het a'r siól, safon mewn ystwm arbennig fel pe baent Sián Owen yn y llun.
Buon ni'n són am y newidiadau a gafodd y capel trwy gydol y blynyddoedd, fel yn y goleuadau o ganhwyllau i fylbiau trydan.
Edrychon ni ar yr afon gerllaw lle cafodd pobl eu bedyddio. Cyn gadael cawson ffotograff grwp dynnwyd y tu allan i'r capel.
Yn ystod y daith yn ól, gwnaethon ni stopio mewn pentref bach o'r enw Llandanwg. Roedd pawb neu fwyafrif y grwp yn mwynhau hufen iá yn yr haul. Roedden ni wrth ein bodd hefyd i ymweld ag eglwys fach iawn yno, eglwys St Tanwg, a adeiladwyd yn y chwched ganrif.



Ar y ffordd yn ól i Ddinbych, gan fod y tywydd yn dda iawn, gallen ni fwynhau'r cefn gwlad hardd.
Gallwn ddweud fod y daith yn llwyddianus iawn, gwnaethon ni ei fwynhau'n fawr iawn, roedden ni i gyd yn ymddwyn yn dda iawn a (gobeithio) roedd ein hathrawes yn falch ohonom.

Diolch yn fawr i Nerys Ann

**gan Diego Lucas**

## Taith i Harlech

Un dydd Mercher braf aeth criw o ddysgwyr Nerys Ann am drip i Harlech. Gwelon ni y castell a gwrandawon ni ar grwp o gerddorion yn canu offerynnau Canol Oesol ac yn gwisgo dillad o'r adeg. Roedd o'n dda iawn, yn enwedig yn yr heulwen. Aeth rhai o ni i fyny'r twr a cerddon ni o gwmpas y waliau i weld y golygfeydd hyfryd. Ar ól y castell, bwyton ni ginio mewn bwyty efo byrddau tu allan, roedd y bwyd yn flasus iawn.

Nesa, aethon ni i weld Capel Salem, y lle cafodd y darlun enwog *Salem* ei beintio. Dydy y capel ddim yn edrych fel capel cyffredin, mwy fel ty. Meddwlon ni fod y capel yn mwyaf na mae hi'n edrych yn y llun. Gwisgodd Nerys Ann a rhai bobol eraill het gorun uchel a siól beisli fel Sian Owen, y ddynes yn y llun.

Yn olaf, aethon ni i Llandanwg i weld yr eglwys hanesyddol o'r 5ed ganrif ar y traeth. Roedd to yr eglwys yn ddiddorol ac yn hen iawn. Cawson ni hufen iá cartref o Gaerfyrddin cyn dod adre ar Cart y Plwyf. Cawson ni gyd ddiwrnod arbennig!

**James King**


CYMDEITHAS Y BIGWN

***NOSON I'R TEULU***

**Rhostio Mochyn**



**CLWB RYGBI DINBYCH**

**NOS WENER MEDI 7fed am 6.00**

**£8 I OEDOLION, £4 I BLANT CYNRADD**

**MYNEDIAD TRWY DOCYN YN UNIG!!!**

***AR GAEL O SIOP CLWYD***
***neu ar 01745 812239***
***& 01745 817485***

**BWYD LLYSIEUOL AR GAEL**

**ELW'R NOSON TUAG AT EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD SIR DDINBYCH 2020**

# YSGOL TWM O'R NANT

Mae’r tywydd yn brafio ac mae plant yr Uned dan 5 wedi bod yn brysur iawn yn gwneud sialensau yn yr awyr agored er mwyn gwella’r amgylchedd. Maen nhw wedi bod yn gofalu am y bywyd gwyllt sy’n dod i’r dosbarth tu allan ac erbyn hyn maen nhw wedi cwblhau digon o sialensau i dderbyn y dystysgrif efydd gan yr RSPB. Llongyfarchiadau! Ymlaen rwan am yr arian!




Dyma rai o’r plant efo’u tystysgrif!



Penderfynodd blant yr Uned Dan 7 gynnal sialens feicio noddedig er mwyn codi arian i brynu adnoddau newydd i’r dosbarthiadau. Mi wnaeth pob un o’r plant yn wych gan feicio cyfanswm o 42 o filltiroedd dros ddau ddiwrnod. Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael. Mae’r plant wedi cael gwario ychydig o’r arian yn barod ar adnoddau TGCh newydd, roedd pawb wrth eu boddau!



Bu rai o flwyddyn 5 a 6 yn cystadlu yn gala nofio yr Urdd. Llongyfarchiadau i bob un am wneud mor dda.



Cafodd yr Uned dan 9 fynd ar drip ddechrau’r tymor i ganolfan Rufeinig Dewa yng Nghaer. Cafodd pob un o’r plant gyfle i fod yn filwr Rhufeinig a martsio ar hyd strydoedd Caer. Roedd pawb yn edrych yn ffyrnig iawn yn gafael yn eu tarianau. Aethom o gwmpas yr amgueddfa hefyd sydd yn werth ei weld. Cafwyd profiad anhygoel a dysgwyd llawer am gyfnod y Rhufeiniaid.






Penderfynodd yr Uned dan 9 gynnal stondin gacennau er mwyn codi arian ar gyfer yr uned. Daeth llawer iawn o’r plant â chacennau blasus iawn i’r ysgol a chafwyd diwrnod yn llunio posteri i hysbysebu a gweithgareddau rhifedd amrywiol, ac wrth gwrs y darn gorau sef prynu a bwyta y cacennau ar ddiwedd y dydd!!



Daeth Mrs Melina Morris i'r ysgol i sôn am ei phrofiad o redeg marathon Llundain. Mae hi wedi ysgogi sawl un o'r plant i redeg yn y dyfodol gyda'i sgwrs a llawer eisiau cymryd rhan yn marathon Llundain yn y dyfodol. Casglodd yr ysgol dros £200 tuag at ei elusen NSPCC. Da iawn a diolch i bawb am eu cyfraniad.






Mae tymor yr haf wedi cyrraedd ac mae'r Uned dan 11 wedi bod yn brysur yn ein ardal tu allan yn ddiweddar! Thema newydd ein uned ydy Tywydd a Rhandir ac rydym wedi cael hwyl yn datblygu ein ardal tu allan. Cawsom lawer o hwyl wrth blannu gwhanol lysiau a phlanhigion tu allan yn y tywydd braf!!



Da iawn i Cai o flwyddyn o 5 am gynrychioli'r ysgol yn y cogurdd. Mae'r bwyd yn edrych yn fendigedig!



Adnoddau TGCh newydd, a brynwyd gydag arian sialens feicio









Hanna Jones bl 12 yn derbyn ei gwobr

## Ysgol Glan Clwyd

Cafwyd seremoni Cofnod Cyrhaeddiad arbennig yn y Gadeirlan ar brynhawn Gwener, Mai 4ydd a'r wraig wadd am eleni oedd Sara Hilton, cyn ddisgybl sydd yn Ddarlithydd yng Ngholeg Glyndwr gyda Cymdeithas Peldroed Cymru mewn Hyfforddi a Perfformiad Peldroed.

Mae hi'n gyfnod prysur iawn i'n disgyblion ar hyn o bryd gyda cyfnod Arholiadau lefel A, UG a TGAU wedi cychwyn ac rydym yn dymuno pob llwyddiant i'n myfyrwyr dros y cyfnod prysur yma.

**Llongyfarchiadau** i Mali (bl9), Owain John a Tomos Clwyd (bl10) ar ennill Cystadleuaeth Ffermwyr Ifanc tîm Siarad Cyhoeddus Cymru i rai dan 14 yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau** i Hanna Jones, Emily Smith ac Ella White ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth Arlunio Syr Kyffin Williams Ysgolion Sir Ddinbych 2018. Mae menter Cyfoethogi Cwricwlwm Gwasanaethau Addysg a Phlant Sir Ddinbych wedi lansio'r gystadleuaeth yma i gydnabod a gwobrwyo talent artistig plant yn ysgolion Sir Ddinbych. Golyga hyn fod y disgyblion wedi ennill deunyddiau arlunio a gweithdy i'r ysgol gydag artist Cymreig blaenllaw.

Mae gwaith Hanna wedi ei yrru ymlaen i'r Academi Frenhinol y Cambrian, Conwy a bydd i'w weld yn y Galeri Isaf w/c 14 – 30 Mai 2018, fel rhan o Angerdd i Gymru / *A Passion for Wales*, sydd yn coffau genedigaeth Sir Kyffin Williams 100 mlynedd yn ôl.

Bydd gwaith Hanna wedyn yn rhan o 136ed Arddangosfa Blynyddol Haf yr Academi (pob galeri) a bydd ar gael i'w weld o Gorffennaf 7fed 2018 ymlaen, ynghyd a gwaith Emily and Ella. Hefyd bydd gwaith y canlynol Catrin Burgess, Hannah Bolger, Erin Davies, Catrin Rees Williams, Julia Bugelli, Lucy Winter a Hayley Daffern yn cael ei harddangos.

**Autoclinic Glyn Evans**



Stâd Ddwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA
Atgyweiriadau damwain, gwaith adfer o safon, jig,
cyfleusterau crasu isel, gwasanaeth cyrchu 24 awr
Ffôn:(01745) 815141



**Taith FLL (First Lego League) i Detroit.**
Llongyfarchiadau i dîm Egni (Julia Bugelli, Osian Jones, Elliott Maitland-Davies) o flwyddyn 9 am gynrychioli Cymru yng Nhystadleuaeth y Byd yn Detroit Roedd y disgyblion yn llwyddiannus iawn yn America gan orffen yn y 100 uchaf allan o 35,000 o dimau a fu'n cystadlu eleni. Roedd rhaid ennill y lle yma drwy ennill drwy Ogledd Cymru ac yna cystadlu yn y rownd derfynol Prydain ym Mryste. Cafwyd adborth ardderchog gan y beirniaid ac arbenigwyr yn y maes gwyddonol a peiriannyddol. Mae'r tîm a'r athro eisiau diolch yn fawr i bawb gefnogodd nhw mewn unrhyw ffordd, ac yn arbennig i'r noddwyr oherwydd heb eu nawdd buasai hyn heb fod yn bosib. Rydym yn falch iawn o'n disgyblion sydd wedi rhoi enw'r ysgol ar y map go iawn!



**Gwaith Maes Daearyddiaeth**
Ar Ebrill 17 aethom ni, sef dosbarthiadau TGAU Daearyddiaeth blwyddyn 10, i'r Rhyl i astudio adfywiad trefol. Yna'r diwrnod canlynol aethom i ymweld â llwybrau Betws y Coed a'r Wyddfa gan gwblhau holiadur ar eu hansawdd. Cawsom dywydd arbennig ac roedd pawb wedi mwynhau, yn enwedig yr hufen ia ym Metws y Coed.

**Llongyfarchiadau** i Joel Rizzi 9D ar orffen yn 18fed yn y MXGP yn Latvia ac ennill pwyntiau. Mae o yn y safle cyntaf ac ar y blaen yn y gyfres *Michelin British Championship,* camp enfawr i rhywun o'i oed.




**Llongyfarchiadau** i dîm pêl-droed merched o dan 13 Ysgol Glan Clwyd am gyrraedd y rownd derfynol trwy ysgolion Cymru. Roedd y merched yn llwyddiannus iawn ar eu taith, yn curo hyd at 7 o gemau er mwyn cyrraedd eu lle. Fe weithiodd pob un ohonynt yn galed iawn, yn llawn haeddu eu lle, ac dim ond yn colli o 1 pwynt i 0 yn erbyn tîm cryf iawn o Fro Morgannwg. Rydym yn llawn balchder gyda llwyddiant y merched, ac yn dymuno pob hwyl iddynt eto'r flwyddyn nesaf.

# ÔL-RIFYNNAU O'R BIGWN

Rwy'n ymwybodol fod rhai o ddarllenwyr Y Bigwn wedi casglu bob copi sydd wedi ei gyhoeddi dros y blynyddoedd. Ydach chi'n un o'r rhain, ac efallai'n rhedeg allan o le i'w cadw'n ddiogel?
Os felly, efallai y bydd gennych ddiddordeb yn y cais isod a ddaeth yn ddiweddar gan Aled Betts, o'r Llyfrgell Genedlaethol.

*Helo,*
*Dwi'n casglu cyhoeddiadau ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Dwi'n sylwi bod y canlynol ar goll gennym:*
*Y Bigwn Papur Bro Dinbych*
***Cyf. 27 rhif. 7 2015 Mis Tachwedd/ Rhagfyr***
***Cyf. 28 rhif. 1 2016 Mis Ionawr/ Chwefror***
*Dyma'r unig ddau sydd ar goll gan fod y set gyda ni bron yn gyflawn. A fydd modd gofyn a oes copiau sbar gyda chi a fyddwch fodlon anfon i ni yn y Llyfrgell?*
*Llawer o ddiolch,*
*Aled*

Os gallwch chi helpu, yna cysylltwch ag un o'r Golygyddion, neu cysylltwch ag Aled:

Llyfrgellydd Derbyn
Uned Llyfryddiaeth Cymru
Adran Casgliadau Cyhoeddiedig
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU

***Gol***




Llun o dim rygbi B18 a gurodd Llanfair Caereinion yn ffeinal Cwpan RGC Dwyrain mis diwethaf. Roedd hi'n gêm gystadleuol iawn efo YGC 21-0 i lawr ar ôl y 15 munud cyntaf, ond dechreuodd YGC chwarae'n well a lledu'r bel a'i gwneud yn anodd i Gaereinion amddiffyn. Erbyn hanner amser roedd YGC i fyny o 22-21! Cychwynodd yr ail hanner yn union fel diwedd yr hanner cyntaf efo YGC yn lledu'r bel a sgorio dau gais sydyn i fynd 36-21 ar blaen. Sgoriodd Caereinion ddau gais o fewn y 10 munud olaf, ond roedd amddiffyn YGC yn rhy gryf gyda'r sgôr terfynol o 36-35 i YGC. **(Mae hwn yn swnio'n gem anhygoel! Da iawn chi, YGC. Gol.)**

**Roedd** tim B18 drwodd i rownd derfynol Cwpan RGC yn erbyn Ysgol Dyffryn Conwy yng Nghlwb Rygbi'r Bala ar Fai 16, ac er gwaethaf gem arall gystadleuol iawn, colli fu hanes YGC o 31-12.

**Llongyfarchiadau** hefyd i dimau rygbi bl 7 ac 8 ar ennill tlws yr Urdd yn ddiweddar.

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor
CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

# "TAITH YR ANIALWCH"
# ATGOFION CARCHAROR RHYFEL



Amgueddfa Carchar Changi



Carchar Changi yn 2002

Ychydig amser yn ôl cefais fenthyg llyfryn bach yn cynnwys 60 tudalen, yn dwyn y teitl uchod, gan Eiri Jones. Awdur y llyfryn oedd E Llewelyn Evans, sef ewythr i Eiri, ac wedi ei gyhoeddi ym 1985, deugain mlynedd ar ôl y profiadau erchyll mae'n eu disgrifio, sef ei gyfnod fel carcharor rhyfel yng Ngharchar Changi yn Singapore a Ku-Ching yn Borneo.

Yn ei Ragair i'r llyfryn dywed Arfon Gwilym iddo ofyn i Mr Evans sôn am ei brofiadau i'w cynnwys mewn erthygl yn "Yr Ysgub", sef "Papur Bro Dyffrynnoedd Tanat, Cain, Efyrnwy a Cheiriog a thref Croesoswallt". Cafodd wybod fod Mr Evans *"newydd orffen cofnodi ei atgofion mewn llyfryn. Doedd ei deulu a'i gyfeillion agos ddim wedi cael fawr iawn o'r hanes erioed – dim hyd yn oed ei briod, Dilys – ac ar eu cyfer nhw yn bennaf yr oedd Mr Evans wedi mynd ati i sgwennu ... Gwelais ar unwaith fod yma rywbeth haeddai gynulleidfa ehangach."* Felly aeth ati, gyda chaniatâd yr awdur, i gyhoeddi'r llyfryn gydag *"ychydig iawn o gywiro a thacluso."*

Ar glawr cefn y llyfryn dywedir, *"Bu farw dros 800 o'i gyd-garcharorion yn y gwersyll hwnnw – mwy na hanner y rhai a gyrrhaeddodd yno ddechrau 1942 – a hynny dan amgylchiadau enbyd a thrist iawn.*



Capel Changi

*Hanes y cyfnod ofnadwy hwnnw yn ei fywyd geir yn y gyfrol hon – hanes gŵr a fu drwy uffern a dod allan ohoni'n fyw ...ond does neb a fu drwy brofiadau fel y rhai a ddisgrifir yma yn debyg o anghofio. Bydd unrhyw un sy'n darllen y gyfrol hon yn deall pam."*

Wedi i mi ei ddarllen fy hun, sgwennais nodyn byr at Eiri, a gyda'i chaniatâd hi, dwi'n ail-adrodd ychydig o'r nodyn hwnnw isod:

*"Cefais flas ar ei ddarllen – dwi ddim yn meddwl fod y gair 'mwynhau' yn addas. Mae'n amlwg iddo fod yn gymeriad cryf iawn, gyda ffydd gadarn, a braf oedd gweld fflach o hiwmor yn dod drwodd ambell waith. Mae'r llyfryn hwn yn haeddu cael ei ddarllen gan holl ddarllenwyr Cymru!"*

Os hoffech chi rannu'r profiad, rwy'n siwr y bydd Eiri'n falch iawn i fenthyca copi i chi. Mae'r gyfrol yn drysor teuluol – ac yn drysor cenedlaethol.

Well i mi adael y gair olaf i'r awdur ei hun, sy'n sgwennu hyn am ei hanes yn y bennod olaf, "Cau Pen y Mwdwl":

*"Mae un peth yn siwr, nis gallwn fyth ei lefaru na'i gyhoeddi megis darlith, ac nid yw ei ysgrifennu wedi bod yn hollol hawdd ychwaith, oherwydd i mi orfod ail-fyw yn fy meddwl yr holl droeon a fu, er nad yw'r cwbwl wedi ymddangos ar y tudalennau hyn. Gennyf fi fy hun y bydd rhai digwyddiadau yn aros."*

Rwy'n hynod ddiolchgar i Eiri am rannu ychydig atgofion am ei "Yncl Llew" gyda'n darllenwyr.

*John Davies*

********************************

# YNCL LLEW

Cafodd fy nhad Ellis Evans ei eni yn 1912 yn Cefn, Hirnant sydd rhwng pentref Penybontfawr a Llanwddyn yng ngogledd yr hen Sir Drefaldwyn - yn un o wyth o blant. Roedd ganddo dair chwaer a phedwar brawd. Rwyf yn lwcus iawn fy mod yn cofio pob un ohonynt. Saer oedd fy nhaid ac roeddent wedi cael eu magu gyda ffydd cryf iawn. I Gapel Hebron, Hirnant fyddent yn mynd a piti garw bod yr adeilad hwnnw wedi ei ddymchwel ers 1980. Un o'i frodyr oedd Evan Llewelyn Evans neu Yncl Llew fel yr oeddem yn ei alw.



Yncl Llew (ar y chwith) gydag Ellis Evans (Tad Eiri)

Cafodd Yncl Llew ei alw i'r fyddin yn 1941. Byddai wedi dâl trên o orsaf Penybontfawr ac ar ôl rhai wythnosau mewn gwahanol lefydd roedd gorfod mynd, ym mis Tachwedd 1941, ar y llong 'Athlone Castle' o ddociau Greenock i'r Dwyrain Pell. Roedd o leia tair mil o filwyr ar y llong. Dipyn o newid iddo o'i fywyd tawel yn Hirnant.

Roedd ei brofiadau fel carcharor yn erchyll ac ymhlith y pethau roedd rhaid iddo wneud oedd helpu i dorri beddau i rai o'i gyd garcharorion. Un tro pan lewygodd offeiriad wrth gynnal gwasanaeth i gladdu dau o ffrindiau Yncl Llew gofynnwyd iddo fo gynnal y gwasanaeth gan bod yr Is Gomandant wedi ei weld yn darllen Beibl. Gwnaeth hynny yn Gymraeg. Ei bader bob nos a bore oedd emyn o waith Y Parch George Lewis, Llanuwchlyn:

"Am fy mod heddiw'n fyw
Mi rof deyrnged
O glod a mawl i'n Harglwydd Dduw
Am fy arbed."

Mewn llythyr o adre, cafodd Yncl Llew wybod bod ei fam wedi marw.

Roedd hi wedi rhoi Beibl a Llyfr Emynau iddo wrth iddo gychwyn i'r Rhyfel ac roedd rhaid iddo eu cuddio….Darllenai rhain yn gyson. Fe ddaeth a nhw yn ôl adre ac un o'r pethau cyntaf a wnaeth oedd mynd â nhw at fedd ei fam (sef fy nain i).

Digon eiddil oedd o yn fabi ac yn blentyn a phan gafodd ei ryddhau roedd yn pwyso chydig o dan chwe stôn! Dyn annwyl, tawel a diymhongar oedd Yncl Llew….byth â gair drwg i ddweud am neb a byth yn codi ei lais. Dyna syt y byddaf i yn ei gofio. Byddai byth yn sôn am ei brofiadau fel carcharor gyda'r Japaniaid.

Priododd Anti Dilys yn 1948 a chawsont bron hanner can mlynedd o fywyd priodasol hapus iawn. Mi gofia i o pan oedd yn gweithio i'w chwaer a'i frawd yng nghyfraith (Anti Mair ac Yncl Llew Roberts) yn siop y Stores ym Mhenybontfawr yn y 1960au. Ar ôl hynny bu yn bost feistr ym Mhenybontfawr. Yn ddiweddarach symudodd o ac Anti Dilys i Benygarnedd ac wedyn i Bala. Bu farw yn 88 oed ym mis Mai 1998 a bu ei angladd yng nghapel Carmel, Penygarnedd. Rhoddwyd y bennill a ddefnyddiodd fel pader ar y daflen.

*Eiri Jones*

**(Fel mae'n digwydd, cawsom y cyfle i ymweld ag Amgueddfa Carchar Changi yn Singapore yn 2002 pan oeddem ar ein ffordd i weld ffrindiau yn Seland Newydd. Gweler y lluniau. Gol.)**

# Yr Aberth Mawr

Fy mai i ydy' o. Rydwi'n ymwybodol iawn o hynny. Fedra' i ddim beio neb arall. Na, dydwi ddim yn disgwyl unrhyw gydymdeimlad gan yr un ohonoch chi.

Mae fy nheulu i wedi d'eud erioed fy mod i'n un byrbwyll, yn ymylu ar fod yn wyllt o ran g'neud penderfyniadau.

Ond y tro hwn rydwi wedi'i g'neud hi'n go iawn. Mae hi wedi ta ta arna' i.

Ers blynyddoedd rydwi wedi bod yn mynd i Ogledd Ddwyrain yr Alban er mwyn ymweld â theulu'r wraig. Hen le digon oer ydy' o, hyd yn oed ym mis Awst, ac y mae hynny yn fy siwtio i'r dim gan na allaf oddef tywydd poeth.

Wel, cefais y chwilen yn fy mhen flynyddoedd yn ôl byddwn ar ôl ymddeol yn hoffi ymweld â'r ardal pan fo hi'n ddiwrnod hirddydd haf gan ei bod hi'n olau yn hwyr a gwawrio'n gynnar iawn yno ym Mehefin.

Does yno nemor ddim oriau o dywyllwch, mewn gwirionedd, ac y mae hynny yn ennyn fy chwilfrydedd.

Sôn am y peth droeon ond am ryw reswm wnaethom ni ddim gweithredu arno, hynny ydy' cyn eleni.

Pan wyntyllwyd y syniad gan y wraig cytunais yn llawen, yn frwdfrydig hyd yn oed.

Ond, och a gwae, anghofiais fod Mehefin eleni yn gyfnod gemau agoriadol Cwpan y Byd. Ia, Cwpan Y Byd y gêm fwyaf yn y byd – pêl-droed.

Sut allwn i fod mor flêr?

Rydwi wedi dilyn yr ornest yn slafaidd er 1958, ers dyddiau John Charles a'r Pele ifanc, gan wirioni ar ddoniau tîm yr Iseldiroedd yn y saithdegau a thimau Sbaen a Phortiwgal yn y ganrif hon.

Oes, wrth gwrs mae gan y teulu yn yr Alban deledu, mwy nag un set, ond does gan yr un ohonyn nhw 'run gronyn o ddiddordeb mewn ffwtbol, ac y mae hynny yn creu gofid ac argyfwng imi.

Credwch neu beidio, un braidd yn swil ydw i pan ddaw hi'n fater o ofyn yn nhŷ rhywun arall am wylio rhaglen ar y teledu. Byddai gofyn am weld hyd at dair gêm y dydd yn ymylu ar fod yn haerllug.

Gwrando ar y radio fydd raid gyda'r cyrn yn fy nghlustiau gan geisio peidio â bod yn anghymdeithasol. Dyna fy mhenyd.

Rydwi'n amau weithiau fod yna gynllwyn wedi bod ar droed rhwng fy ngwraig a'i chwaer o ran ein gwahodd ni draw ar yr union adeg hon eleni.

Os ydy' hynny yn wir mae'n fater i'r Llys Iawnderau Dynol.

Ond yna rydwi'n gorfod cydnabod fy mod i wedi sgorio "own goal" o'r radd flaenaf.

Cyn cytuno i unrhyw beth, Stanli bach, ymbwylla. Dyna ddylai fod f'adnod yn feunyddiol.

Dwi wedi byw efo'r cywilydd hwn ers deufis bellach. Ar ôl y cyfaddefiad hwn bydd yn anodd wynebu rhai ohonoch. Fedra' i ond gofyn i chi am eich trugaredd.

Fy unig gysur ydy byddaf yn ôl gartref ar gyfer pan fo pethau yn dechrau cynhesu go iawn yn yr ornest.

Gobeithio y byddwch yn meddwl amdanaf yn f'alltudiaeth, ac yn cofio am yr aberth mawr hwn a wnaeth un Cymro bach er mwyn cael d'eud iddo aros ar ei draed tan berfeddion yn aros am fachlud haul.

Ac o sôn am Gwpan Y Byd, mae sticeri Panini ar werth yn y siopau ers peth amser bellach.

Oes yna aelod o'ch teulu chi yn eu casglu nhw?

Tristwch o'r mwyaf imi oedd clywed y mab yn d'eud nad ydy o'n eu casglu'r tro hwn am nad ydy' Cymru yn y gystadleuaeth.

Y fath siom..... ond yna rhaid derbyn bellach ei fod o dros ei ddeg ar hugain.

Atgofion melys a ddaw i'r cof am ei famgu yn yr Alban yn anfon sticeri iddo drwy'r post a rheini yn y categori "dwi angen rhain".

Atgofion hefyd am ddiweddar gydweithiwr yn gosod rhestr ar ddrws ei labordy yn nodi pa sticeri roedd o'u hangen ar gyfer ei fab, a pha sticeri roedd ganddo ef yn gyfnewid am rheini.

O bryd i'w gilydd deuai ambell ddisgybl at ddrws yr Ystafell Athrawon gyda'i swops i ffeirio gydag aelod parchus o'r staff, a'r ddau yn deall ei gilydd i'r dim.

Dyna oedd yn g'neud ysgol hapus.

Amcangyfrifir y bydd yn costio o leiaf dros £770 i lenwi'r albwm yn gyflawn gyda'r sticeri hyn eleni. Ydy, mae'r swm uchod yna yn gywir.

Mae FIFA, y corff sy'n rheoli pêl-droed yn fyd-eang, yn sôn am gynyddu'r nifer sydd yn y gystadleuaeth o 32 tîm i 48 tîm. Bydd Panini wrth eu boddau.

*Stan Lyall*

# TRYCHINEB Y "BLITZ"



Priodas Evan a Mary Evans



Teils o dan cownter llaethdy Wncl John Evans, 35 Conway Street - rwan yn siop goffi.

Yn ddiweddar, bu fy ewythr David (brawd fy Mam), fy nai Jon Paul (mab fy mrawd, Goronwy Siencyn) a finnau yn brysur yn darganfod mwy o hanes am ein teulu. Fel man cychwyn, blaenoriaeth ein gwaith oedd canolbwyntio ar ochr fy Mam, Margaret Phillips (Evans gynt), a symudodd i fyw i Bryn Collen, Stryd Y Dyffryn, Dinbych yn Awst 1962, gyda'i gŵr David Leslie Phillips a'u pedwar plentyn, John, Goronwy Siencyn, Mair a finnau.

Enwau fy Nhad-cu a Mam-gu ar ochr fy Mam oedd Evan Evans a Mary Evans (gynt Jones). Un o ddeg o blant oedd Evan ac un o chwech oedd Mary; y ddau ohonynt wedi eu magu ar ffermydd yn agos i'w gilydd yn Llwynpiod, ger Llangeitho, Ceredigion.

Fel nifer eraill o'r sir yn y 1900au cynnar, symudodd Evan a Mary i lawr i Lundain i sefydlu busnes llaethdy. Yn gyfan gwbl, aeth pedair chwaer Evan ac un o'i frodyr, gyda'u partneriaid, i lawr i'r brifddinas, gyda bob un ohonynt yn sefydlu busnes llaethdy. Roedd yn hynod o benderfyniad dewr i'w wneud yn enwedig wrth ystyried nad oeddynt yn siarad Saesneg ac, wrth gwrs, am ei fod yn gyfnod anodd ac anrhagweladwy, gyda Rhyfel Byd Cyntaf a'r Dirwasgiad Mawr.

Yn 50 Union Road, Clapham, bu Evan a Mary yn gweithio a byw, gyda'u plant Margaret (fy Mam) rhwng 1926 a 1985, a David, sydd bellach yn 86 mlwydd oed; y ddau ohonynt wedi eu geni yn Union Road. Gweithio yn yr Heddlu yn Llundain oedd gyrfa David, ond ar ei ymddeoliad, symudodd yn ôl i Gymru, gyda'i wraig Elsie, i fyw yn Llanddarog, ger Caerfyrddin. (Roedd David wedi clywed fod yna un teulu oedd angen sylw arbennig yn byw yn y pentref!!!!)




Llaethdy 50 Union Road Clapham - gyda Mary a'i merch Margaret (fy Mam) - tua 1928.

Gyda'r Ail Ryfel Byd yn torri allan ym Medi 1939, bu Margaret a David yn faciwîs a symud i fyw, ar wahân i'w gilydd, gydag aelodau o'r teulu, ar ffermydd yn ôl yn Llwynpiod. Dathlodd y ddau ohonynt Nadolig 1939 gyda'u rhieni yn Llundain cyn dychwelyd i Geredigion ym Mis Ionawr 1940. Dyna oedd y tro olaf i'r ddau weld eu rhieni.

Dechreuodd y "Blitz", sef y cyrchoedd awyr ar 7fed Medi 1940 a lladdwyd Evan a Mary ar 18fed Medi, sef 11 diwrnod i mewn i'r cyrchoedd. Ar y nosweithiau cyntaf o'r "Blitz", o dan y grisiau (cwtch dan star) bu Evan a Mary yn cysgodi ond, ar y noson dyngedfennol, penderfynwyd mynd i'r "Anderson Shelter" yn yr ardd. Dinistriwyd yr "Anderson Shelter" ond er bod rhan fwyaf o'r tŷ wedi ei ddinistrio, roedd y grisiau wedi goroesi'r ymosodiad! O dan y grisiau bu Evan a Mary yn cadw eu wyau ac, yn wir ryfeddol ac eironig, nid oedd un ohonynt wedi hollti. Claddwyd Evan a Mary ym Mynwent Wandsworth. 14 mlwydd oed oedd Mam ac wyth oedd David.

Fel rhan o'r ymchwil i mewn i hanes y teulu, penderfynodd Sue, fy ngwraig, Jon Paul a minnau deithio lawr i Lundain a mynd o gwmpas ardal Clapham a Clapham Junction. Ar y daith, ymwelwyd â:

a. Lleoliad cartref y teulu Evans yn 50 Union Road, Clapham. Eto, yn rhyfeddol, mae un ochr y ffordd gyda'r adeiladau gwreiddiol o'r cyfnod Victoria a'r ochr arall, roedd wedi eu dinistrio, gydag adeiladau 'newydd', sef rhai wedi eu hadeiladu ar ôl yr Ail Ryfel Byd.I
b. Ysgol Lark Hall, sef ysgol fy Mam.
c. Mynwent Wandsworth i weld bedd fy Nhad-cu a Mam-gu.
ch. Lleoliad llaethdy John Evans (brawd Evan) 35 Conway Street, Fitzroy Square a Meia Davies (chwaer Evan) yn 13 Rugby Street, Holborn - y ddau adeilad yn parhau gyda nifer helaeth o nodweddion y llaethdai.




Carreg Bedd Evan a Mary Evans, Mynwent Wandsworth.




Y plac yn y Capel.

d. Y Capel Cymraeg, Clapham Junction, sef Capel Mam fel plentyn ac i ble dychwelodd i briodi fy Nhad.

Roedd ein hamseriad yn galw heibio'r Capel yn berffaith; y gwasanaeth bore newydd orffen ac felly digon o bobl hynod o glên i drafod ein cwestiynau. Roeddem yn wir gwerthfawrogi'r croeso anhygoel. Uchafbwynt yr ymweliad, a moment annisgwyl ac emosiynol, oedd gweld enwau Evan Evans a Mary Evans ar blac coffa mewn ffrâm bren ar wal y capel.

*Tegid Phillips*

# GRWPIAU CYMUNEDOL A'R LOTERI GENEDLAETHOL

Annwyl Olygydd,

Pan feddyliwch am y Loteri Genedlaethol, byddwch yn aml yn meddwl am rywun yn popio potel o siampên ar ôl cipio miliynau o bunnoedd.

Mae'r golygfeydd hyn o ddathliadau wedi cael eu hailadrodd gan lawer o filoedd o achosion da ledled Cymru, sydd wedi derbyn grantiau i newid eu bywydau, diolch i arian a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Mae rhai o'r grantiau hyn yn cael eu dosbarthu gennym ni yn y Gronfa Loteri Fawr, ac yn y flwyddyn ariannol nesaf byddwn yn darparu dros £30 miliwn i gymunedau, gan roi'r un math o deimlad o ennill y jacpot iddyn nhw o ran y pethau sy'n wirioneddol bwysig.

Mae llawer o'r grantiau unigol hyn yn fawr, gyda gwerth o gannoedd ar filoedd o bunnoedd ond mae nifer mawr sydd llawer, llawer yn llai hefyd.

Y grantiau yma, o cyn lleied â £300 hyd at £10,000, yw'r rhai sy'n cyrraedd llawr gwlad cymunedau o ddifri. Nid yw hyn yn beth newydd gan ein bod, yn ystod y ddeng mlynedd ddiwethaf yn unig, wedi darparu dros 8,000 o grantiau bach gwerth mwy na £31 miliwn a thros y flwyddyn ariannol nesaf byddwn yn dosbarthu gwerth £4 miliwn o grantiau pellach.

Os ydych yn am gael grant mwy ar gyfer eich grŵp cymunedol, mae gennym raglenni eraill sy'n cynnig hyd at £500,000 hefyd.

Am fwy o gwybodaeth ewch i'n gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk_ neu gallwch ffonio ni ar 0300 123 0735, e-bostio cymru@cronfaloterifawr.org.uk, trydar i ni @LoteriFawrCymru neu siarad â ni ar Facebook www.facebook.com/biglotteryfundwales.

John Rose
Cyfarwyddwr Cymru
Cronfa Loteri Fawr

# Gŵr dieithr yw yfory.

Gan fod Banc Barclays erbyn hyn wedi cau, a minnau gwaetha'r modd yn gwsmer yno ers trigain mlynedd a mwy, bydd y rhan honno o'r dref yn dipyn tlotach.

Faint o drigolion Dinbych a wyr fod angylion wedi byw yno cyn amser y banc? Ie, tafarn fechan gyda bar hir i sefyll wrtho a "snug" gyda chadeiriau esmwyth i tua wyth eistedd arnynt oedd yno bryd hynny gyda Mr Angel yn berchenog arni. Y tu ól i'r adeilad yr oedd bragdy sylweddol o faint yn ymestyn hyd at Lón Iáms Melyn – yr ali gul sy'n cysylltu Stryd Y Dyffryn á Lón Parc. Nid yn unig y diwallai Mr Angel syched y dref, ond yr oedd ganddo fasnach helaeth gyda thafarndai y wlad oddi amgylch.


Ond edrychwn ar y Sgwár yn ei gyfanrwydd gan ddechrau gyda siop fferyllydd bresennol Cohen, yr un math o fusnes oedd yno cyn hyn – siopau Royles, John Hywel Williams a chyn hynny, J Harrison Jones, masnachwr hynod lwyddianus. Ef oedd adeiladydd plasdy hardd Trefeirian, y tu allan i'r dref, ac yno y daeth y gwleidydd enwog, Joseph Chamberlain (1836 – 1914), tad y Prif Weinidog Neville Chamberlain i aros gydag ef. Ar gae gyferbyn á'r ty y cynhaliwyd y cyfarfod mawr a channoedd yn tyrru yno i wrando arno'n traethu ar y testun 'Tair erw a buwch.' Bu Mr Harrison Jones yn Faer Dinbych, 1880 hyd 1881, yn wr diwylliedig ac yn hynod o gefnogol i enwad Y Wesleaid yng nghapel Pendref. Yn hanesydd cydwybodol, ef oedd yn gyfrifol am gofnodi hanes canrif gyntaf (1802 – 1902) yr achos hwnnw yn 'Y Methodist', Cylchgrawn misol Cylchdaith Dinbych ym 1903.

Yn nesaf at y siop oedd tafarn y Cross Keys – tafarn helaeth gyda buarth mawr at wasanaeth ffermwyr ar ddyddiau ffair a marchnad. Ar y tir yma yr adeiladwyd y Swyddfa Bost fel y mae heddiw.

Y drws nesaf lle 'roedd siop ddillad John Thomas, arferai un Richard Fox gadw siop fferins, ac ef hefyd, ar ran yr awdurdodau, oedd yn casglu trethi gwlad y tu allan i'r fwrdeistref. Bu am flynyddoedd yn flenor yng nghapel Lón Swan. Yn dilyn dyddiau Mr Fox, yma 'roedd clwb cyntaf y Toriaid yn y dref, a chan fod y drws yn union gyferbyn ag un o brif fynedfeydd y Neuadd Sirol, bu llawer ffrwgwd rhyngddynt á chefnogwyr y Rhyddfrydwyr adeg datgan canlyniad etholiad. Yn ffodus, yr oedd y 'lock up' gerllaw, gyda'r canlyniad y bu llawer o'r eithafwyr dan glo dros nos.

Yn dilyn Lón Bull mae tafarn hynafol Y Bull, sy'n dwyn yr enw Tafarn y Guildhall erbyn hyn, hon, am genedlaethau, yn cael ei chydnabod fel prif westy'r dref, gyda theulu'r Llwydiaid yn gofalu amdani ac yn porthi ei henw da. Yma y byddai Twm o'r Nant yn galw i wlychu ei big ac yr oedd ar yr un adeg lun o'r hen anterliwtiwr ar y wal yn y cyntedd. Wedi i'r rheilffordd agor, bu cerbydau yn rhedeg o'r Bull, ac o'r Crown i'r orsaf.

Ar y gornel bellaf gyda Lón Parc yr oedd y ty cyntaf yn dafarn hefyd o'r enw 'Yr Eagles', neu fel yr adnabyddid hi orau, Yr Egyls, gyda Dic Jones – Dic yr Egyls yn ei chadw.Yr oedd Dic fel sawl tafarnwr arall yn dilyn crefft- yn ei achos ef, tyrniwr coed, ac ef hefyd oedd arweinydd Band yr Egyls. Ar ddyddiau ffair a marchnad yr oedd ganddo stondin ar y Stryd Fawr neu o flaen ei dafarn yn cynnig pob math o lestri wedi'u naddu o goed masarn at wasanaeth y gegin. Barn John Davies Y Groes – Asiedydd o Walia oedd mai Dic oedd y gorau am y math yma o waith drwy'r Sir.



Neuadd y Sir

Gyferbyn á'r Eagles, ar gornel y Sgwár, oedd tafarn y Waterloo, sy'n ein hatgoffa o fuddugoliaeth Wellington dros Napoleon yn 1815.

Mae nifer ohonoch yn cofio Tom Wynne y crydd, yntau, er yn gloff, yn berchen ar lais cyfoethog ac yn aelod gwerthfawr o gór yr Eglwys Gymraeg yn eglwys Y Santes Fair, Siop fleinds sydd yno erbyn hyn.

Nesaf, 1880 hyd yr 1920au, siop ddillad Hugh Williams a'i fab, ond cyn hynny yr oedd un o gymeriadau'r dref, D. P. Jones yn cadw siop trwsio watsus a chlociau. Gan ei fod yn arbenigo yn y gwaith, nid oedd ar unrhyw gyfrif yn barod i drin wats nad oedd o wneuthuriad da. Yn ddiweddar yr oedd yno siop ddillad marchnad.

Yn nesaf at yr Angel (Y Banc), yn ein hamser ni, yr oedd siopau dau gymeriad hoffus a phoblogaidd sef Les Jones y Barbwr a Dic Williams y cigydd, y ddwy wedi hen ddiflannu a swyddfa yswiriant yn eu lle. Flynyddoedd yn ol, yma oedd tafarn y Cross Foxes, gyda'r buarth y tu ól yn ymestyn at Lón Jáms Melyn.

Yn yr adeilad urddasol ar y gornel efo Stryd y Dyffryn, fan ble mae swyddfeydd y twrneiod Swayne Johnson, yr oedd un a elwid John Roberts, Penbedw yn cadw storws fawr o ddillad dewisol, rhy ddrud o lawer i boced y dyn cyffredin. Oddi mewn, ceir olion hynafol, gyda'r lloriau a'r grisiau llydan derw yn adlewyrchu statws y trigolion bryd hynny.

Ond wrth gwrs, prif nodwedd Y Sgwár yw Neuadd y Sir, yr hon sydd yn rhoi yr enw arno. Robert Dudley, Iarll Caerlyr a oedd ar y pryd, 1572, yn dal Arglwyddiaeth Dinbych a gyflwynodd y darn tir gan orchymyn i'r awdurdodau godi neuadd addas i statws y dref. Dudley wrth gwrs oedd ffefryn y Frenhines Elisabeth 1af, a chan ei fod o'r herwydd yn dra trahaus ac awrdurdodol, nid oedd yn boblogaidd o gwbl. Achlysur nodweddiadol ym 1575 oedd bod daeargryn sylweddol wedi achosi i gloch y neuadd ganu ddwywaith.




Tafarn Yr Angel

Dros y canrifoedd, bu sawl defnydd o'r adeilad. Cyn codi'r hen farchnad (cyn Neuadd y Dref yn Sgwár y Goron) ym 1846, yma y cynhaliwyd y marchnadoedd. Y mae map OS 1874 yn dangos yn glir leoliad y Farchnad Yd. Ers adeiladu Neuadd y Dref yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, (1915) mae'r Neuadd Sirol wedi ei defnyddio fel Siambr y Cyngor, Llysoedd Barn gyda Sesiynau'r Bwrdeistref, Sesiynnau Chwarter a Brawdlysoedd y Sir yn cael eu cynnal yno. Yma hefyd oedd swyddfeydd yr Ynadon ac hefyd ystafell helaeth, gyfleus iawn ar gyfer dawnsfeydd a chyfarfodydd cyhoeddus. Heddiw wrth gwrs yma mae Llyfrgell y Dref.
e'r newid amlycaf yn y Sgwár, a hefyd yn y dref, yw diflaniad y tafarnau – Yr Angel, Y Cross Keys, Yr Eagles, Y Waterloo a'r Cross Foxes a dim ond Y Guildhall ar ól hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai dewis y cyhoedd heddiw yw yfed yn y cartref.

***R M (Bobi) Owen***

---

# Y “DREIFAR” WILFRID JONES

Yn rhifyn mis Ebrill 2014, sgwennais erthygl yn dwyn y teitl “Cofio’r Rhyfel Byd Cyntaf”. Cafwyd ychydig o hanes Wilfrid Jones, fu’n “ddreifar” ceffylau yn ystod y Rhyfel Mawr, ac hefyd dwy gerdd o’i eiddo, sef “Er Cof” ac “O’r Frwydr”.
Ychydig wythnosau’n ôl fe dderbyniodd Rhagfyr, sef mab Wilfrid Jones, neges gan ei gyfnither sy'n byw yn Darywen, ger Machynlleth. Roedd hi wedi bod yn gwrando ar raglen Shân Cothi, “Bore Cothi”. Roedd hi wedi clywed Twm Morys yn darllen darn o farddoniaeth o’r Rhyfel Byd Cyntaf ac wedi sylweddoli’n syth mai cerdd gan Wilfrid Jones oedd hi. Cysylltodd Carys, gwraig Rhagfyr, â Radio Cymru, a derbyn copi o’r gerdd a chael gwybod iddi gael ei chyhoeddi ym mhapur newydd “Y Dydd” ar Awst 10fed 1917. Yn ôl Llyfrgell Genedlaethol Cymru, fe gyhoeddwyd y papur yn Nolgellau, ac “Ymhlith Annibynwyr Gogledd Cymru oedd cylchrediad pennaf y papur.”
Yn sgîl hyn, daeth erthygl wedi ei gyhoeddi yn yr un papur newydd ar Fehefin 8fed 1917 i’r golwg, yn dwyn y teitl “Adref am Dro”.
Diolch o galon i Carys a Rhagfyr am ein caniatau i ddarllen yr erthygl a’r gerdd, ac hefyd am gael cyhoeddi llun o Wilfrid yn ddeunaw oed.

*John Davies*

Detholiad o benillion o waith Driver D. Wilfrid Jones o Lanfachraeth, yn adrodd.....

**PROFIAD MILWR ar ei fynediad yn ôl i Faes y Rhyfel, wedi ychydig seibiant yn y wlad hon.....**

Tristwch lanwai gyrau 'nghalon wrth wynebu'n ól i'm taith,
Teimlais gadarn fraich gorfodaeth yn fy ngwthio lawer gwaith;
Anodd iawn oedd gadael Cymru, gwlad o dlysni, gwlad o hedd,
Dim o ru'r magnelau mawrion, neb yn chwifio'r erchyll gledd.
Mynd oedd raid a gadael popeth: Mam a chartref hoffus iawn,
Duw yn unig wyr a gwrddwn yno eto, ai na wnawn;
Saeth drwy'r galon, er pob mwynder ar ôl gadael Cymru lán,
Ydoedd meddwl am yr adeg y cyrhaeddwn wlad y tán;
Er gorchwylder y Brifddinas, croeso calon chwaer a ffrynd,
Troi'r melysder i fy nheimlad oll yn chwerwedd: rhaid oedd mynd.
Wylo welwyd yn yr Orsaf gan finteioedd yma a thraw,
Nid oedd rhif ar ffrydiau'r dagrau dwys a gollwyd ar bob llaw;
Gwenai natur mewn gogoniant ar y daith i ffiniau'r mór,
Hwnw hefyd ymddisgleiriai; cysgod gwan o burdeb Iór.
Hardd a chadarn long a'n cludai draw i ffiniau'r estron wlad
Lle mae meibion dewrion Prydain tros y gwir yn colli'u gwaed;
Wedi glanio, nid oedd seibiant: ffrwst a welid yma a thraw,
Gair Gorchymyn Awdurdodol oedd yn llywio ar bob llaw.
Ust! Rwy'n clywed swn magnelau'n dod o faes yr ornest fawr,
Ac ar erchyll faes cyflafan mae fy wyneb inau'n awr....

Y DYDD, 10 Awst, 1917

**ADREF AM DRO**

Yr wythnos ddiwethaf bu Driver D. Wilfrid Jones o'r R.F.A., (Mab Mrs Jones, Shop fach, Llanfachraeth) adref am ychydig seibiant. Bu ar faes y frwydr yn Ffrianc am yn ymyl ddwy flynedd, ac yr oedd ym mrwydrau Mons ac Arras &c. Yn y lle diwethaf, yr oedd y Battery y perthynai iddi, bron a chael ei hamgylchu gan y Germaniaid, nod oedd ond bwlch bychan o'r tu ol iddynt; ar gelynion wedi cau fel pedol amdanynt, ac yr oedd yr amunition bron terfynu ganddynt; ond pan yr oeddynt bron digaloni cyrhaeddodd un o'r Tansk a chyflenwad o amunition &c iddynt. Codasant eu calon fel dewrion a bu raid i'r gelynion o bobtu gilio yn ól. Diolchai yn fawr am y Parseli gafodd o Ddolgellau ac fod y socks y pethau mwyaf bendithiol oeddynt yn gael.

Mehefin 8, 1917 - Y Dydd

# Gŵyl Ganol Haf Dinbych yn fwrlwm o weithgaredd!

Beth sydd gan Daith Gerdded Ystlumod, Hedd Wyn, te prynhawn Eirin enwog a marathon ffotograffau yn gyffredin? Mae nhw i gyd yn rhan o Ŵyl Ganol Haf Dinbych sydd ymlaen o'r 1af tan y 24ain o Fehefin.

"Mae gennym amrywiaeth o ddigwyddiadau wedi eu trefnu," eglura Ruth Williams un o bwyllgor trefnu'r ŵyl. Fel rhan o'r rhaglen mis o hyd, mae digwyddiadau llenyddol yn y dref, ffair amgylcheddol, byddwn yn dangos ffilmiau, bydd her goginio i blant yn ogystal â sioe gŵn. Mae gennym gerddoriaeth yn rhan o'r ŵyl, chwaraeon, arddangosfa, lansiad llyfr, ac i gloi ar y penwythnos olaf, carnifal a thriathlon."

"Rydym yn falch o allu denu cymaint i Ddinbych gan rannu hanes, treftadaeth a diwylliant ein tref farchnad hardd. Dwi'n annog pawb i nôl ein llyfryn gwybodaeth, sydd ar gael yn y dref neu ewch i'n tudalen Facebook, fel y gallwch gynllunio eich gweithgareddau ar gyfer y mis!"

Bydd noson agoriadol yr ŵyl yng nghwmni Gwilym Bowen Rhys a Beth Celyn a fydd yn dathlu Twm o'r Nant, un o feibion enwocaf ein tref, drwy rannu ychydig o hanesion a cherddi a chaneuon gwerin. Archebwch docynnau o flaen llaw trwy Fenter Iaith Dinbych 01745 812822 am £3.

Rhai o'r digwyddiadau eraill fydd o bosib o ddiddordeb i ddarllenwyr y Bigwn,yn cynnwys noson yng nghwmni Tri Gog a Hwntw yn y Clwb rygbi ar nos Sadwrn 9fed o Fehefin, Gŵyl Feithrin Dewin a Doti yn Neuadd y Dref ddydd Iau 14 Mehefin (rhaid archebu tocyn o flaen llaw), darlith gan Ifor ap Glyn yn yr Amgueddfa Gwefr Heb Wifrau nos Wener 15 Mehefin a sioe un dyn Mewn Cymeriad – yn cyflwyno Hedd Wyn ddydd Iau 20 Mehefin.

"Fel gŵyl sy'n cael ei threfnu gan griw o wirfoddolwyr, rydym yn hynod ddiolchgar i Gyngor Tref Dinbych, Grŵp Cynefin, Cadw, Cyngor Sir Ddinbych a Menter Iaith am eu cefnogaeth barhaus. Rydym hefyd yn ddyledus i nifer o sefydliadau gwirfoddol a busnesau lleol am eu cefnogaeth - diolch yn fawr iawn. Gadewch i ni wneud Gŵyl Ganol Haf Dinbych 2018 y gorau eto!" meddai Ruth wrth gloi.

Am fwy o fanylion am y digwyddiadau a'r gweithgareddau, cydiwch mewn rhaglen o Lyfrgell Dinbych neu siopau a chaffis ledled tref Dinbych. Gallwch hefyd ymweld â'r dudalen Facebook: Gŵyl Ganol Haf Dinbych



Ben Dant - Gŵyl Feithrin yn Neuadd y Dref



Tri Gog a Hwntw yn y Clwb Rygbi ar nos Sadwrn 9fed




Sioe un dyn Mewn Cymeriad – yn cyflwyno Hedd Wyn ddydd Iau 20 Mehefin.



Ci yn y Castell



# CPD Dinbych

Wedi naw gêm heb gael eu curo ym mis Mawrth, Ebrill a Mai, fe gipiodd CPD Dinbych y 3ydd safle yn nghynghrair Huws Gray Cymru, sef yr ail haen o bêl-droed yng Nghymru. Ers sefydlwyd y clwb ym 1880, dyma'r safle uchaf i'r clwb gyrraedd erioed yn eu hanes.

Dan reolaeth y cyn-chwaraewr Eddie Maurice-Jones, ei hyfforddwyr Dewi Llion a Dan Reece, a'i gynorthwyydd Richard William-Cooke a ymunodd gyda'r clwb ym mis Ionawr, mae'r clwb wedi cryfhau a ffynnu fel tîm wrth orffen pum pwynt yn unig y tu ôl i'r pencampwyr, Caernarfon.

Yn ystod eu tair gêm olaf o'r tymor, teithion nhw i Guilsfield lle cawson nhw gêm hynod o agos gyda'r sgôr yn gorffen yn gyfartal o 2-2. Daeth y goliau gan Matthew Worrall a Dan Sullivan.

Nesaf, gwelwyd buddugoliaeth gyfforddus o 3-0 yn Central Park yn erbyn Gresford, gyda Worrall, Andrew Swarbrick a Gareth Partridge yn sgorio'r goliau pwysig.

Roedd y gêm olaf yn erbyn Treffynnon, sef yr unig dîm arall a oedd yn gallu cyrraedd yr ail safle yn y gynghrair. Daeth criw da o gefnogwyr Dinbych i gefnogi oddi cartref a gyda goliau gan Sullivan, Worrall a Kristian Pierce, roedd Dinbych yn llawn haeddu'r fuddugoliaeth.

Er hynny, o fewn dyddiau o orffen y tymor, fe gysylltodd CPD y Rhyl gyda'r clwb gan ofyn i gael sgwrs gyda'r rheolwr Eddie Maurice-Jones gyda'r gobaith o ofyn iddo ddod yn rheolwr ar Y Rhyl. Wedi i'r clwb ganiatáu'r sgwrs, ac ar ôl llawer o bendroni, fe benderfynodd Maurice-Jones fod y cyfle i reoli clwb o faint a statws Rhyl yn un oedd yn rhy dda i'w golli ac fe dderbyniodd y cynnig. Mae'n gadael y clwb eleni gyda phob dymuniad da gan bawb o CPD Dinbych wedi iddo ddatblygu'r Clwb yn sylweddol eleni.

Un anfantais arall o'r newyddion yma yw y bydd Maurice-Jones yn cymryd rhai o'i chwaraewyr o Ddinbych gydag ef i Rhyl. Mae Dinbych felly yn edrych am reolwr newydd yn ogystal â chwaraewyr newydd i lenwi'r tîm hefyd ar gyfer y tymor nesaf.

Dan reolaeth Kevin Roberts, tymor rhyfedd a gafodd yr Ail Dîm, ble gwelwyd sawl gêm yn cael eu gohirio oherwydd tywydd gwael a Threffynnon yn fforffedu'r gêm gan nad oedden nhw'n gallu codi tîm. Er hynny, maen nhw wedi ennill pob gêm ers mis Tachwedd gan ddod yn ail yn y gynghrair, dim ond dau bwynt y tu ôl i'r pencampwyr, Prestatyn.

Cafwyd buddugoliaeth arbennig yn ystod eu gêm yn erbyn Llanberis oddi cartref, gyda Sam Tate, Tom Weir, Jacob Parry a Rhys Llwyd yn rhwydo'r goliau. Dilynwyd hyn gyda gêm arall yn erbyn Llanberis yn Central Park ddiwedd Ebrill gyda buddugoliaeth o 3-1 gydag Andy Thomas (2) a Lewis Jenner yn sgorio'r goliau pwysig y noson honno.

Gorffennodd Tîm Development Dinbcyh dan reolaeth Nick Hailes y tymor yn y 9fed safle mewn cynghrair gref gyda sawl tîm aeddfed yn eu herbyn. Mae'r chwaraewyr ifanc wedi addasu'n dda i chwarae yn erbyn dynion wedi sawl blwyddyn o chwarae gyda'r timau ieuenctid. Mae Hailes a'i hyfforddwyr Al Griffiths ac Ian Clayton i'w canmol am y ffordd y bu iddynt redeg y tîm gyda'r bechgyn ifanc. Fe guron nhw Betws y Coed o 2-1 yn Central Park, gyda Gwion Bibby a Ryan Williams yn sgorio'r goliau, cyn colli o 4-3 yn erbyn Rhos on Sea ac o 6-0 yn erbyn tîm cryf Llanrwst a oedd hefyd yn chwarae llawer o'u chwaraewr tîm cyntaf yn erbyn y bechgyn ifanc.

Cynhaliwyd Noson Wobrwyo Ddiwedd Tymor y Clwb yn y Plas Pigot ar nos Wener, Mai 18fed lle'r oedd cyfle i ddathlu llwyddiannau'r flwyddyn. Enillwyr y noson oedd:

**Tîm Cyntaf**

Chwaraewr y Rheolwr: Dan Sullivan

Chwaraewr y Chwaraewyr: Craig Pritchard

Chwaraewr y Cefnogwyr: Craig Pritchard

Sgoriwr Uchaf: Josh Davies

**Ail Dîm**

Chwaraewr y Rheolwr: Gwion Bibby

Chwaraewr y Chwaraewyr: Sam Tate

Chwaraewr y Cefnogwyr: Same Tate

Sgoriwr Uchaf: Andy Thomas

**Denbigh Development**

Chwaraewr y Rheolwr: Robbie Blythin

Chwaraewr y Chwaraewyr: Josh Griffiths

Chwaraewr sydd wedi gwella fwyaf: Robbie Williams

Sgoriwr Uchaf: Adam Jones

**Gwobrau eraill**

Chwaraewr Ifanc y Tymor: Gruff Jones

Clybiwr y Flwyddyn: Steve Whitfield

Fe gyflwynodd Shon Powell flodau hefyd i Olwen Williams sydd wedi golchi holl gitiau'r tri thîm dros y flwyddyn, ac i Jill Whitfield ac Ellen Lawson am redeg y gegin. Mae Roy Gunther wedi helpu i wella proffil y clwb gyda'i luniau o bob gêm eleni ac fe wobrwywyd ef gyda thalebau ar gyfer offer camera.

Diolchwyd i Robert 'Popsy' Griffith am dymor arall o gasglu arian ar y giatiau ac i Owen Thomas am ei waith gyda'r raffl ar ddyddiau gemau. Canmolwyd Steve Redfern Jones am ei waith dros y flwyddyn o gynhyrchu'r Rhaglen ar gyfer pob gêm ac am fod yn gyfrifol o drefnu'r '5 Match Forecast' er mwyn codi arian i'r clwb. Cymeradwywyd Derek Hughes, tirmon y clwb, am ei waith caled, yn enwedig dros y gaeaf wrth baratoi Central Park ar gyfer y gemau.

## HEN LUNIAU

Os oes gennych hen luniau o'ch teulu, cymdogion neu ffrindiau o'r ardal ac yn dymuno eu rhannu gyda darllenwyr y Bigwn, anfonwch ar ffurf ebost at ybigwn@hotmail.co.uk ac fe roddwn un llun bob mis yn Y Bigwn. Os yn bosib, byddai enwau, digwyddiad neu yr achlysur yn help i bawb adnabod y llun.

SIOP CLWYD

33 STRYD FAWR
DINBYCH
01745 813431

Llyfrau, Cardiau
Casetiau
Crynoddisgiau
a Chrefftau

# CLWB RYGBI DINBYCH

Yn anffodus, ni fu'n bosib cynnwys adroddiad am gêm y Tîm Cyntaf yn Wrecsam yn y rhifyn olaf, gan i mi fod i ffwrdd ar fy ngwyliau. Ond gwell hwyr na hwyrach, gan i'r canlyniad o 52-22 i Ddinbych sicrhau dyrchafiad i Adran 1 y tymor nesaf, gan sgorio wyth cais, yn cynnwys dau gais yr un i Garin Roberts a Kieran Bonar. Pythefnos yn ddiweddarach, y gobaith oedd cael pwynt bonws yn Shotton, y tîm yn yr ail safle yn Adran 2, ac felly selio'r Bencampwriaeth. Erbyn hanner amser roedd y tîm cartref ar y blaen o 8-0 ac wedi llwyr reoli'r hanner cyntaf, a Dinbych yn hynod ffodus fod y sgôr ddim yn llawer mwy! Yn waeth na hyn, cafodd Gareth Beach, yr ail reng sydd wedi bod mor allweddol i lwyddiant y tîm yn ddiweddar, anaf cas i'w wddf, a olygai taith i'r ysbyty mewn ambiwlans. Ond pwy ddaeth i'r adwy? Neb llai na'r bytholwyrdd Gavin Rizzi, oedd wedi chwarae ychydig funudau o rygbi'n unig y tymor hwn. Dechreuodd reoli'r leiniau, ac o ganlyniad cafwyd buddugoliaeth o 20-13, gyda thri cais, ond heb bwynt bonws. Os enillwyd gêm erioed ar ysbryd a chalon, hon oedd y gêm.

Felly bu'n rhaid disgwyl am wythnos arall i gael eu coroni'n Bencampwyr, a gwnaethpwyd hynny mewn steil gan guro'r ymwelwyr o Lanidloes o 101-7. Sgoriodd Gruff Roberts ac Aidyn Jones bedwar cais yr un, gyda Tom Seddon yn croesi am hatric a Dan O'Sullivan yn cyfrannu 31 pwynt, yn cynnwys 13 trosiad. Roedd hi'n braf hefyd gweld Gareth yn ôl ar ei draed ac yn gwylio'r gêm yn dilyn ei anaf wythnos yng nghynt.

Daeth torf sylweddol draw i Fangor i wylio Dinbych yn amddiffyn eu teitl fel deiliaid Cwpan Ganolradd Gogledd Cymru yn erbyn Shotton. Roedd hi'n amlwg fod Shotton yn hyderus o ennill y gêm yn dilyn eu perfformiad cysdtadleuol bythefnos yng nhynt yn Shotton. Ond roedd sgiliau a ffitrwydd bechgyn Dinbych yn allweddol yn y fuddugoliaeth gampus o 36 -19. Sgoriodd Tom Seddon ddau gais, ond rhaid canmol Gareth "Gaz" Jones am gael ei enwi yn Seren y Gêm. Hon hefyd oedd gêm olaf un David Haydock, yr ail reng. Mae wedi rhoi gwasaneth gwych ac wedi bod yn deyrngar i'r Clwb dros nifer o flynyddoedd. Rwy'n cofio hyfforddi David a Gaz pan yn fechgyn wyth oed, felly mae'n amlwg eu bod mewn dipyn o oed erbyn hyn!

Parhau wnaeth rhediad siomedig yr Ail Dîm, yn colli o 9-3 mewn gêm hynod agos yn y Gynghrair ym Machynlleth, ond cafwyd canlyniad llawer gwell yn Yr Wyddgrug, gan ennill o 43-7. Ond yn ôl ar Gaeau Les Phillips, yr ymwelwyr o Borthaethwy aeth â hi o 24-8. Daeth diweddglo mwy boddhaol i'r tymor wrth guro Tîm Cyntaf Rhosllannerchrugog o 32-19, gyda'r mewnwr Iwan Johnson yn sgorio dau allan o chwe chais y tîm. Wedyn daeth buddugoliaeth o 40-34 yn erbyn yr ymwelwyr o Fachynlleth yng ngêm olaf un y tymor, gyda'r ddau dîm yn rhannu deuddeg cais.

Ond rhwng y ddwy gêm olaf, teithiodd yr Ail Dîm i Ynys Jersey i chwarae yn erbyn Clwb Rygbi'r Jersey Royals. Er gwaetha'r holl "gymdeithasu" aeth ymlaen hyd oriau mân y bore, cafwyd gêm hynod gyffrous, gyda Dafydd Cartwright yn croesi'r llinell chwe gwaith ac Aaron Evans yn sgorio dau gais (diolch i Aaron am y wybodaeth!!)

Teithiodd yr Ieuenctid i Rhuthun ac ennill o 19-18 cyn colli gartref o 40-15 yn erbyn Bangor, y ddwy gêm yn y Gynghrair, ond talwyd y pwyth yn ôl yn Ninbych o drwch blewyn, gyda sgôr terfynol o 15-12. Daeth diwedd siomedig i'r tymor pan gollwyd Ffeinal Plât Ieuenctid Gogledd Cymru mewn gêm hynod agos o 30-28 yn erbyn COBRA ym Mae Colwyn.

Ymunodd y Tîm Dan 15 gyda thîm yr un oedran o Glwb Rygbi Glyn Ceiriog i chwarae yn erbyn Tîm Dan 16 Glyn Ceiriog ar eu cae newydd yng nghanol y pentref. Nid yn annisgwyl, y rhai hŷn aeth â hi, ond mae chwaraewyr Dan 15 Dinbych yn gwella o gêm i gêm.

Mewn gemau yn erbyn Y Bala, cafwyd gêm gyfartal gan y Tîm Dan 8, gyda'r Tîm Dan 10 yn ennill a'r rhai Dan 12 yn colli.

Cafodd y Tîm Dan 11 fuddugoliaeth campus mewn gêm gyffrous dros ben yn erbyn yr ymwelwyr o Rhuthun, gyda sgôr terfynol o 42-28.

Aeth y Tîm Dan 10 i Wrecsam i gymryd rhan yn y Twrnamaint Eingl-Gymreig blynyddol. Llwyddodd y tîm i fynd trwy pedair gêm yn ddiguro, ond yn well na hynny, enillwyd y Darian Eingl-Gymreig am y flwyddyn 2018. Mae'r tlws arbennig hwn yn cael ei gyflwyno i'r tîm yn dilyn pleidlais gan hyfforddwyr y timau eraill ar sail:

(1) Cyd-chwarae (2) Disgyblaeth (3) Ymdrech a (4) Chwarae'n Deg. Da iawn chi!

*John Davies*









Pencampwyr! Adran 2 Gogledd Cymru.

Garej Ffowndri
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur
01745 812482






Pencampwyr! Cwpan Ganolradd Gogledd Cymru.




Pencampwyr! Twrnamaint Eingl-Gymreig Wrecsam.

**Hysbyseb Gwasg Helygain**



Andy Thomas, prif sgoriwr yr Ail Dîm



**Chwaraewr y Tymor yr Ail Dîm, Gwobr y Rheolwr:** Gwion Bibby gyda Shôn Powell, Cadeirydd y Clwb

**Aelodd y Flwyddyn:** Ysgrifennydd Clwb, Steve Whitfield, a Shôn Powell, Cadeirydd





**Chwaraewr Ifanc y Tymor:** Gruff Jones gyda Shôn Powell, Cadeirydd y Clwb ac Eddie Maurice Jones, Rheolwr y Tîm Cyntaf

***GOLYGYDD Gorffennaf : Morgan Cordiner***

Cyhoeddwyd gan: Gymdeithas y Bigwn Cysodwyd gan Hywel Evans ac Argraffwyd gan Wasg Helygain